

Cynllun Gweithgareddau Creu Hanes



1	Crynodeb Gweithredol	5	3.4.3	Ymddygiad ar-lein	24			
1.1	Nodau'r project	5	3.4.4	Ymchwil ar bobl nad ydynt yn ymwelwyr: dadansoddi rhwystrau	24	4.4	A oes galw? Trosolwg o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori	36
1.2	Y cyd-destun strategol	6	3.4.5	Gweithgareddau presennol: profiad goddefol yn bennaf	26	4.4.1	Cwmpas gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd	37
1.2.1	Amgueddfa ddysg o safon ryngwladol	6	3.5	Hyfforddiant a rhannu sgiliau	28	4.4.2	Dull partneriaeth	37
1.2.2	Yr angen am borth twristiaeth ddiwylliannol	6	3.5.1	Sgiliau traddodiadol	28	4.4.3	Fforymau cyfranogol	37
1.2.3	Yr angen cymdeithasol	6	3.5.2	Mynediad at gasgliadau ac arbenigedd	28	4.4.4	Dulliau ymgysylltu	38
1.3	Ceisio gwneud gwahaniaeth	7	3.5.3	Sgiliau iaith	29	4.4.5	Astudiaethau achos	38
1.3.1	Ein cynulleidfaoedd targed	7	3.5.4	Sgiliau archaeolegol	29			
1.3.2	Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni	7	3.5.5	Sgiliau creadigol	29			
1.4	Strwythur y Cynllun Gweithgareddau	11	3.5.6	Lle rydym yn ddiffygiol	29			
			3.6	Gwirfoddoli: cyfleoedd project	30	5	Sut y byddwn yn mesur llwyddiant	40
			3.6.1	Rhwystiau i wirfoddoli yn Sain Ffagan	30	5.1	Dangosyddion ansoddol	41
2	Cyflwyniad	13				5.2	Dangosyddion meintiol	46
2.1	Lle arbennig	13	4	Penderfyniadau strategol ynghylch cynnwys pobl	31	6	Pa adnoddau sydd eu hangen arnom?	49
2.2	Pam mae Sain Ffagan yn bwysig	13	4.1	Adnodd ysbrydoledig ar gyfer creu hanes gyda'n gilydd	31	6.1	Mannau a chyfleusterau	49
2.2.1	Amgueddfa pobl	13	4.1.1	Lleoliad unigryw ar gyfer dysgu	31	6.2	Adnoddau dynol	50
2.2.2	Un o'r amgueddfeydd profiad gwreiddiol	13	4.1.2	Orielau newydd yn archwilio tystiolaeth hanesyddol mewn gwahanol ffyrdd	31	6.3	Adnoddau ariannol	50
2.2.3	Pwysigrwydd economaidd	14	4.1.3	Archaeoleg arbrofol	32	7	Sicrhau manteision hirdymor	51
2.3	Pam mae angen i Sain Ffagan newid	15	4.1.4	Mynediad uniongyrchol at gasgliadau a gwybodaeth	32	7.1	Sut bydd Sain Ffagan yn wahanol ar ôl y project	51
3	Y sefyllfa ar hyn o bryd	16	4.2	Dod yn amgueddfa genedlaethol gyfranogol	32	7.2	Sut y byddwn yn parhau i ddatblygu	51
3.1	Ymrwymiad Amgueddfa Cymru i gynnwys pobl		4.2.1	Dyfnhau ymgysylltiad â threftadaeth ddiwylliannol	32	7.3	Sut y byddwn yn rhannu gwersi'r project	51
3.1.1	Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol	16	4.2.2	Datblygu sgiliau a thalent crefft	33	7.3.1	Yn Amgueddfa Cymru	51
3.1.2	Y cefndir	16	4.2.3	Canolfan ragoriaeth genedlaethol mewn gwirfoddoli	34	7.3.2	Gyda'n partneriaid a'n cyfranogwyr	51
3.1.3	Strategaeth Tlodi Plant	16	4.2.4	Galluogi plant a phobl ifanc drwy dreftadaeth ddiwylliannol	34	7.3.3	Gydag amgueddfeydd eraill a'r byd ehangach	51
3.1.4	Polisiau eraill Amgueddfa Cymru	16				7.4	Sut y byddwn yn cyflawni nodau Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer dysgu a chyfranogiad	51
3.2	Sut y gwnaethom greu'r Cynllun Gweithgareddau	16	4.2.5	Ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth drwy gyd-guradu a chydweithio	35	8	Ein cynllun gweithredu	52
3.2.1	Yr hyn rydym wedi'i ddysgu o arbrofion yn y gorffennol: <i>Oriel 1 a Gwreiddiau</i>	17	4.2.6	Bod yn wirioneddol genedlaethol wrth wasanaethu Cymru gyfan	35	8.1	Amserlen	52
3.2.2	Yr hyn rydym wedi'i ddysgu gan eraill	17				8.2	Costau yng nghyllideb y project	56
3.2.3	Pwy oedd yn rhan o'r broses o ddatblygu syniadau?	18	4.2.7	Galluogi pobl o bedwar ban byd i gymryd rhan yn rhaglenni'r Amgueddfa a chyfrannu	35	9	Atodiadau	
3.3	Yr hyn rydym yn ei wybod am ein cynulleidfaoedd presennol	21				9.1	Strategaeth Dysgu a Dehongli	
3.3.1	Ein defnyddwyr	22	4.3	Sefydliad cynaliadwy	35	9.2	Strategaeth Cyfryngau Digidol	
3.3.2	Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol	22	4.3.1	Datblygu a hyfforddi staff	35	9.3	Strategaeth Gwirfoddoli	
3.4	Ymgysylltu a Dehongli	22	4.3.2	Parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr	35	9.4	Cynllun Hyfforddi a Datblygu	
3.4.1	Ymwybyddiaeth o Sain Ffagan a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig	23	4.3.3	Cynyddu nifer yr ymwelwyr	35	9.5	Disgrifiadau swydd	
3.4.2	Adborth ar brofiad ymwelwyr	23						



1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Nodau'r project

Mae'r Cynllun Gweithgareddau yn ganolog i gyflawni nod cyffredinol y project o **drawsnewid Sain Ffagan i fod yn amgueddfa hanes genedlaethol o safon ryngwladol sy'n cael ei sbarduno gan anghenion ei defnyddwyr.**

Bydd **Creu Hanes** yn cyflwyno hanesion pobl Cymru mewn ffordd unigryw. Mae Sain Ffagan wedi bod yn amgueddfa *am* bobl Cymru erioed. Yr hyn y bydd Creu Hanes yn ei wneud yw llywio dyfodol Sain Ffagan *gyda* phobl Cymru, drwy eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r adeiladau, yr arddangosfeydd, y gweithgareddau a'r wefan.

Am y tro cyntaf yn unrhyw le, bydd casgliadau cenedlaethol o archaeoleg a hanes cymdeithasol yn cael eu harddangos gyda'i gilydd mewn amgueddfa awyr agored. Bydd ymwelwyr yn gallu archwilio dros 200,000 o flynyddoedd o dreftadaeth Cymru. Bydd arddangosfeydd arloesol ar ffurf deialog, adeiladau hanesyddol dilyn, adluniadau archaeolegol a gweithgareddau rhannu sgiliau yn datgloi potensial ein casgliadau o safon byd.

Yr allwedd i drawsnewid Sain Ffagan i fod yn amgueddfa sy'n rhoi lle canolog i anghenion defnyddwyr yw Canolfan Ddysgu newydd, a fydd yn darparu profiadau dysgu gweithredol a chyfalaf diwylliannol i bob grŵp cymdeithasol. Ein nod yw darparu profiadau gwell i'n holl ymwelwyr, lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol a ddarparwn a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i dreftadaeth a phobl.



1.2 Y cyd-destun strategol

1.2.1 Amgueddfa ddysg o safon ryngwladol

Mae'r project yn deillio o weledigaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer dechrau ei hail ganrif i greu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol (2005).¹ Egwyddor ganolog y weledigaeth hon yw cyfuno rhagoriaeth yn y ffordd rydym yn rhannu ein gwybodaeth â'n datblygiad ein hunain fel sefydliad sy'n dysgu'n barhaus. Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i greu amgueddfeydd lle bydd ymwelwyr yn gallu cysylltu â gorffennol Cymru, cyfoeth creadigol y celfyddydau ac ieithoedd ac amrywiaeth anhygoel ein hamgylchedd naturiol.

Mae'r weledigaeth hon wedi trosi'n dri phrosiect datblygu mawr:

- Creu Amgueddfa Gelf Genedlaethol ar lawr cyntaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Cwblhawyd y gwaith hwn ym mis Gorffennaf 2011.
- Adleoli'r arddangosiadau archaeoleg o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i Sain Ffagan a'u hintegreiddio â'r casgliadau hanes cymdeithasol i greu Amgueddfa Werin Cymru
- Creu Amgueddfa Astudiaethau Natur Cymru ar lawr daear Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan ehangu'r arddangosiadau i'r gofod sy'n gartref i'r arddangosiadau archaeoleg ar hyn o bryd.

Mae'r project Creu Hanes yn gam pwysig tuag at wireddu gweledigaeth gyffredinol Amgueddfa Cymru ac mae'n datblygu'r egwyddorion ymgysylltu a nodir yn y ddogfen honno ymhellach, yn enwedig:

'Dysgu trwy rannu ... estyn allan at ein partneriaid yng nghymunedau amrywiol Cymru a dysgu ganddynt, er mwyn ehangu a datblygu cwmpas ein gwaith ar hyd llwybrau dysgu newydd.'

1.2.2 Yr angen am borth twristiaeth ddiwylliannol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan Sain Ffagan gyfraniad pwysig i'w wneud at economi Cymru, ac mae ei Rhaglen Lywodraethu bresennol² yn tynnu sylw at yr angen i 'Ddatblygu Sain Ffagan ymhellach fel atyniad diwylliannol sylweddol a phorth ymwelwyr i Gymru.' Mae Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru³ yn mynd ati yn yr un modd i dynnu sylw at rôl hollbwysig yr Amgueddfa o ran goresgyn yr hyn a ystyrir yn eang fel darnio wrth adrodd stori Cymru drwy 'ddarparu lleoliad un stop ar gyfer trosolwg o hanes Cymru ... a fydd yn cynnig dehongliad cyfannol o hanes a diwylliant Cymru.'

1.2.3 Yr angen cymdeithasol

Mae un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tldi, y gyfradd uchaf yn y DU. Mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed yng Nghymru dros 20% ar hyn o bryd, unwaith eto yn uwch na chyfartaledd y DU. Mae trechu tldi ac anghydraddoldeb ymhlith plant a phobl ifanc yn hanfodol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt wneud y gorau o'u bywydau. Rhaid i Amgueddfa Cymru, fel corff a ariennir yn gyhoeddus, gymhwyso ei hadnoddau i helpu i dorri'r gadwyn hon o dangyflawni, ac mae mewn sefyllfa dda i wneud hynny fel y darparwr mwyaf yng Nghymru o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a ffynhonnell gydnabyddedig o arbenigedd mewn sgiliau traddodiadol.



¹Gweler <http://www.museumwales.ac.uk/en/visionmap/>

²Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, 2011, t47
<https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu>

³Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol i Gymru, 2006, t56.
<http://wales.gov.uk/depc/publications/tourism/aboutvisitwales/stratpol/culturaltourism1/cultural-tourism-strat-wales-eng?lang=en>

1.3 Ceisio gwneud gwahaniaeth


Credwn y bydd buddsoddi yn y project Creu Hanes yn galluogi'r Amgueddfa nid yn unig i ddarparu profiadau gwell i'n holl ymwelwyr, ond hefyd i leihau anghydraddoldebau o ran cymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol a ddarparwn.

1.3.1 Ein cynulleidfaoedd targed

Byddwn yn targedu anghenion y grwpiau canlynol yn benodol wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer cynnwys arddangosfeydd, dehongli a gweithgareddau:

- ardaloedd â chyfran uchel o'r boblogaeth ar incwm isel neu'n ddi-waith
- rhannau gwledig ac ynysig o Gymru
- siaradwyr Cymraeg a dysgwyr
- cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
- pobl Anabl a Byddar (gan gynnwys plant mewn grwpiau ysgol sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig). Fe'u cysylltir â'r grwpiau ehangach canlynol o gynulleidfaoedd targed a ddiffinnit yn ôl oedran, sef ffocws ein Cynllun Gweithredu:
- Pobl Ifanc (14-17, 18-24), yn enwedig y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
- oedolion (25-54, 55+, 65+)
- teuluoedd (gyda phlant o dan 5 oed, 5-7, 8-11, 11+)
- ysgolion - yn enwedig ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ysgolion cynradd yn y Gogledd⁴
- grwpiau coleg a phrifysgol.

⁴ Wedi'i lywio gan werthusiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r ail o'r astudiaethau 'Beth wnaethoch chi ei ddysgu yn yr amgueddfa heddiw?' a gynhaliwyd gan MLA, 2005



1.3.2 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni

Mae'r Cynllun Gweithgareddau ar gyfer y project Creu Hanes yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion project canlynol:

NOD	AMCAN	TARGEDAU CYFLAWNADWY Y CYNLLUN GWEITHGAREDDAU
ADNODD YSBRYDOLEDIG: canolfan ragoriaeth ryngwladol sy'n ysbrydoli pobl i ddysgu am hanes Cymru a'i archwilio.	Creu lleoliad unigryw ar gyfer dysgu drwy gyfuno archaeoleg, hanes, tystiolaeth lafar a threftadaeth anniriaethol mewn amgueddfa awyr agored.	Amgylcheddau wedi'u cyfoethogi, dan do ac yn yr awyr agored, a fydd yn darparu ar gyfer pob arddull ddysgu. Trawsnewid ymgysylltiad y cyhoedd â hanes Cymru drwy weithio gyda sefydliadau treftadaeth ac addysgol eraill. (I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad 1: Strategaeth Dysgu a Dehongli.)
	Galluogi ymwelwyr i brofi gwahanol ffyrdd o ddehongli tystiolaeth hanesyddol drwy greu orielau newydd sy'n gwahodd trafodaeth ac sy'n cynnwys gwahanol naratifau a chyfraniadau gan ddefnyddwyr.	Tair arddangosfa oriel newydd, yn dehongli tystiolaeth hanesyddol mewn gwahanol ffyrdd, drwy drafodaeth am hunaniaeth, realiti bywydau bob dydd pobl ac etifeddiaeth greadigol gwneuthurwyr, ddoe a heddiw. Byddwn yn cyflwyno gwahanol safbwyntiau a naratifau o'r gorffennol, ac yn gwahodd cyfraniadau gan ddefnyddwyr. (Gweler adroddiad Cam D Dehongli a Dylunio Arddangosfeydd am fanylion.)

	Profi damcaniaethau archaeolegol presennol drwy arbrofion ymarferol ac adeiladau wedi'u hail-greu mewn ardal archaeoleg arbrofol newydd.	Adeiladu anheddiad o'r Oes Haearn o dystiolaeth archaeolegol o safle ym Mryn Eryr yn y Gogledd. Adeiladu llys tywysogion Gwynedd ganoloesol yn seiliedig ar dystiolaeth o Lys Rhosyr, Ynys Môn, a fydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer arosiadau preswyl. Creu crug o'r Oes Efydd a'i gynnwys.
	Rhoi mynediad uniongyrchol i ddefnyddwyr at y cyfoeth o gasgliadau archifol a materol ar gyfer astudio ac ymchwil drwy agor Canolfan Mynediad at Gasgliadau newydd groesawgar.	Mynediad at gasgliadau unigryw o dystiolaeth lafar, archifau gweledol a dogfennol, yn ogystal â chasgliadau wrth gefn o gasgliadau materol.
AMGUEDDFA GYFRANOGOL: i fod yn amgueddfa groesawgar a chynhwysol lle gall pawb rannu gwybodaeth, casgliadau a sgiliau	Dyfnhau ymgysylltiad â threftadaeth ddiwylliannol i bobl o bob oed a chefnidir drwy greu Canolfan Ddysgu. Ysbrydoli ymwelwyr i ddatblygu eu sgiliau crefft eu hunain mewn adeilad cynaliadwy newydd a fydd yn dathlu sgiliau gwneuthurwyr, ddoe a heddiw.	Dros gyfnod y project, bydd y Ganolfan Ddysgu yn darparu gweithgareddau wedi'u hwyluso ar gyfer 83,000 o ddefnyddwyr. Bydd dros 100,000 o bobl yn ymgysylltu â sgiliau crefft drwy weithgareddau wedi'u rhaglennu a gweithgareddau galw heibio yn y cyfleusterau a gynigir gan yr adeilad newydd. Cynigir saith prentisiaeth a 22 o leoliadau gwaith fel rhan o'r gwaith adeiladu sy'n deillio o'r project.
	Bod yn ganolfan ragoriaeth genedlaethol mewn gwirfoddoli, gan ddarparu rhaglenni sy'n diwallu anghenion y gymuned a gwirfoddolwyr.	Byddwn yn darparu lleoliadau gwirfoddol cynhwysfawr i 600 o bobl (3,000 o ddiwrnodau gwirfoddoli), y mhob agwedd ar waith yr Amgueddfa. Bydd hyn yn cynnwys y gwaith adeiladu sy'n rhan o'r ailddatblygiad, gan roi balchder, cyswllt ac ymdeimlad hirhoedlog o berchnogaeth gyda'r safle am genedlaethau i ddod. Byddwn yn darparu cyfleoedd i 400 o wirfoddolwyr achlysurol (300 o ddiwrnodau gwirfoddoli) hefyd. (Gweler Atodiad 3: Strategaeth Wirfoddoli)
	Defnyddio treftadaeth ddiwylliannol i alluogi pobl – yn enwedig plant a phobl ifanc mewn tlodi ac sy'n wynebu risg – i ddarganfod doniau newydd, codi eu dyheadau a datblygu sgiliau bywyd.	Erbyn diwedd y project, byddwn wedi cynnwys 190 o blant a phobl ifanc mewn gwaith dwys hirdymor, a fydd yn cynnwys 5,700 o ymweliadau.
	Ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth a chynulleidfaoedd wedi'u hallgáu hyd yma drwy raglen o gyd-guradu a chydweithio.	Erbyn diwedd y project, byddwn wedi lansio pedair arddangosfa sy'n cael eu curadu yn y gymuned gyda sefydliadau sy'n cynrychioli Cymunedau yn Gyntaf, cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a grwpiau Ffoaduriaid.
	Bod yn wirioneddol genedlaethol wrth wasanaethu a gweithio gyda phobl mewn cymunedau ledled Cymru drwy raglenni digidol a chydweithredol.	Byddwn yn sefydlu cymunedau ar-lein ar bynciau Creu Hanes lle gall ein defnyddwyr rannu eu syniadau, eu hatgofion, eu hadolygiadau a'u delweddau i adeiladu ein gwybodaeth am Gymru. Bydd 2,000 o bobl yn rhan o'n rhaglen allgymorth/mewngymorth (gweler y Strategaeth Farchnata hefyd).
	Galluogi pobl o bedwar ban byd i gymryd rhan yn rhaglenni'r Amgueddfa a chyfrannu at ei gwaith drwy gyfryngau digidol.	Byddwn yn cynyddu nifer yr ymweliadau blyneddol â'r wefan i 500,000 erbyn 2018 (Gweler Atodiad 2: Strategaeth Ddigidol i gael rhagor o fanylion)

Creu Hanes yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

SEFYDLIAD CYNALIADWY: amgueddfa a fydd yn gynaliadwy ac yn parhau i esblygu i ddiwallu anghenion cymdeithas	Defnyddio'r project i sbarduno newid sefydliadol a diwylliannol ar draws Amgueddfa Cymru.	Bydd y dull cyfranogol o weithio sy'n cael ei sbarduno gan y defnyddiwr a'r strategaethau a ddatblygwyd ar gyfer Creu Hanes yn llywio datblygiadau Amgueddfa Cymru yn y dyfodol. (Gweler Atodiad 3: Strategaeth Wirfoddoli; Atodiad 4: Cynllun Hyfforddi a Datblygu a'r Strategaeth Werthuso)
	Buddsoddi mewn dysgu a datblygu'r 200 o staff sy'n rhan o'r project.	Dros y pum mlynedd, bydd fframwaith ar gyfer hyfforddi holl staff Sain Ffagan yn cael ei roi ar waith i ddiwallu anghenion y project. (Gweler Atodiad 4: Cynllun Hyfforddi a Datblygu)
	Sicrhau bod yr Amgueddfa'n parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr a rhanddeiliaid drwy ymgysylltu â'r cyhoedd a gwerthusiad addasol parhaus.	Mae dros 130 o sefydliadau, sy'n cynrychioli'r holl gynulleidfaoedd targed yn genedlaethol ac yn lleol, wedi gweithio gyda ni eisoes a byddant yn parhau i wneud hynny drwy naw fforwm cyfranogiad. Byddant yn blatfform parhaus ar gyfer ymgynghori, cydweithio a mesur canlyniadau projectau gyda grwpiau defnyddwyr â blaenoriaeth.
	Cynyddu nifer yr ymwelwyr i 850,000 y flwyddyn, drwy ddefnyddio manau dan do ychwanegol i wneud Sain Ffagan yn atyniad ymwelwyr gydol y flwyddyn.	Bydd y cyfleusterau newydd yn blatfform ar gyfer darparu profiadau egnïol a diddorol i bob ymwelydd. Byddwn yn cynyddu nifer yr ymweliadau dysgu ffurfiol. Byddwn yn creu cylch rhinweddol o ymgysylltu dyfnach, gan gysylltu ymweliadau â'r wefan, ymweliadau gwirioneddol, rhaglenni allgymorth ac ymchwil i gynyddu nifer y bobl sy'n elwa ar Sain Ffagan.
	Cyfrannu at gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.	Byddwn yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli cynhwysfawr i dros 600 o bobl, 400 o gyfleoedd gwirfoddoli achlysurol, a lleoliadau gwaith a phrentisiaethau, yn seiliedig ar anghenion ein defnyddwyr. Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn darparu £3.0 miliwn ychwanegol o'r gwerth ychwanegol gros (GYG) dros y cyfnod adeiladu. Amcangyfrifir y bydd y project yn creu 100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE), yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn ystod y cyfnod adeiladu a 49 o swyddi FTE, yn barhaol. Byddwn yn codi proffil Caerdydd fel cyrchfan i dwristiaid, ac yn gweithredu fel porth i safleoedd treftadaeth eraill yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y project yn cynhyrchu £5.5 miliwn o wariant ychwanegol gan ymwelwyr yn ardal Caerdydd erbyn 2020-21. Byddwn yn cyfleu negeseuon amgylcheddol yn ein dehongliad a'n gweithgareddau. (Gweler y Cynllun Cynaliadwyedd Busnes a'r Maniffesto Economaidd Cryno am fwy o fanylion)

Mae angen **trawsnewid Sain Ffagan yn ffisegol** er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae sicrhau bod y Prif Adeilad yn gweithredu'n effeithiol – yn enwedig datblygu orielau arloesol, mannau gweithgareddau ac ardaloedd mynediad at gasgliadau mewn Canolfan Ddysgu newydd – yn allweddol i lwyddiant y project cyfan.

Bydd yr adeilad newydd, Gweithdy, rydym yn bwriadu ei adeiladu ar y safle awyr agored yn dathlu sgiliau gwneuthurwyr ar hyd yr oesoedd. Bydd yn arddangos casgliadau a gwaith wedi'i gyd-greu, yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ymarferol cysylltiedig ar gyfer yr ymwelydd cyffredinol, ac yn lleoliad ar gyfer cyrsiau a gweithdai wedi'u rhaglennu mewn sgiliau crefft, adeiladu a chreadigol traddodiadol, yn ogystal â sgiliau bywyd trosglwyddadwy.

Rydym yn buddsoddi mewn adnoddau hefyd i sicrhau bod ein presenoldeb ar-lein a'n technolegau digidol yn gwneud cyfraniad hollbwysig at sicrhau cyfranogiad a democratiaeth ddiwylliannol.

Fodd bynnag, nid ydym o dan unrhyw gamargraff o ran faint mae angen i'r sefydliad **drawsnewid yn ddiwylliannol** er mwyn cyflawni'r nodau hyn a chael ei sbarduno gan ddefnyddwyr yn ein hymagwedd at bob agwedd ar ein gwaith. Mae hon yn fenter uchelgeisiol iawn i amgueddfa genedlaethol. Er mwyn bod yn ymatebol i'r rhai sy'n cymryd rhan gyda ni ar y daith hon, rhaid i ni fabwysiadu dull addasol o ymdrin â'n hamcanion, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithgareddau hwn. Byddwn yn hunan-feirniadol, yn dysgu ac yn adeiladu ar bob llwyddiant. Bydd sefydlu strategaethau llwyddiannus ar gyfer ffyrdd o weithio yn y tymor hwy yr un mor bwysig ag allbynnau materol a mesurau meintiol o lwyddiant. Mae hyn yn golygu sicrhau newid sefydliadol a rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r broses hon.



1.4 Strwythur y Cynllun Gweithgareddau

Rhennir y Cynllun hwn yn wyth prif bennod.

Mae'r bennod nesaf (2) yn rhoi cyflwyniad i Sain Ffagan, ei pherthynas hanesyddol â phobl Cymru a pham mae angen newid.

Mae Pennod 3 yn amlinellu'r sefyllfa bresennol: y cyddestun sefydliadol, cynulleidfaoedd a gweithgareddau presennol a rhwystrau i gyfranogiad.

Mae'r bennod bwysicaf (4) yn adeiladu ar hyn ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen: nodau'r project cyffredinol, sut rydym yn bwriadu eu cyflawni a sut mae'r syniadau hyn wedi'u llywio gyda darpar ddefnyddwyr a chanddynt.

Mae Pennod 5 yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gwerthuso llwyddiant.

Mae Pennod 6 yn mynd i'r afael â goblygiadau o ran adnoddau.

Mae Pennod 7 yn nodi sut y byddwn yn sicrhau manteision hirdymor a sut y maent yn ymwneud â nodau Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Mae'r bennod olaf (8) yn manylu ar y Cynllun Gweithredu, gan roi dadansoddiad o'r wybodaeth reoli ar gyfer pob gweithgarwch.

Mae pum atodiad, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl, ar ddiwedd y Cynllun.



‘Mae'r amgueddfa hon yn helpu i ddiogelu hanfod Cymru ... Rwy'n credu bod pobl eisiau gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod bod ganddyn nhw hunaniaeth. Felly mae pobl yn mynd i barchu hynny. Mae fel parchu eich hun.’

Aelod o grŵp ffocws, 2002

(Astudiaeth o ymwelwyr a'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddi-Gymraeg)

2 Cyflwyniad

2.1 Lle arbennig

Mae Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn sefydliad unigryw. Mae'n cyfuno, ar un safle, swyddogaethau a ddarperir yn gyffredinol gan sefydliadau ar wahân mewn gwledydd eraill: profiadau dysgu diwylliannol safle treftadaeth, amgueddfa awyr agored o adeiladau hanesyddol wedi'u trawsleoli, arddangosfeydd oriel ac archif genedlaethol o dystiolaeth lafar a diwylliant cynhenid Cymru. Er bod amgueddfeydd awyr agored eraill yn y DU ac yn Ewrop, nid oes unrhyw gymaryddion uniongyrchol.

Mae Sain Ffagan eisoes yn amgueddfa lwyddiannus iawn. Dyma'r atyniad treftadaeth yr ymwelir ag ef fwyaf yng Nghymru, gyda rhwng chwech a saith can mil o ymwelwyr y flwyddyn, a dyma'r amgueddfa awyr agored yr ymwelir â hi fwyaf ond un yn Ewrop. Sain Ffagan yw'r darparwr dysgu mwyaf yng Nghymru y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gyda thros 360,000 o ymwelwyr teuluol a 90,000 o ymwelwyr addysg ffurfiol. Yn ôl canlyniadau arolwg diweddar o dros 7,000 o bobl gan y cylchgrawn *Which?*, Sain Ffagan yw'r amgueddfa/oriel orau'r DU ac, yn sgil sgôr bodddhad cwsmeriaid o 90%, mae'n cael ei disgrifio fel hoff atyniad y cyhoedd yn y DU.

Felly pam y byddem eisiau gwneud pethau'n wahanol? Mae Sain Ffagan bob amser wedi bod yn amgueddfa'r bobl, ar gyfer y bobl, wedi'i hadeiladu ar gyfraniadau cenedlaethau o bobl o bob cwr o Gymru. Fodd bynnag, nid yw ei horielau'n cyflawni'r safon o ragoriaeth a ddisgwylir gan amgueddfa o bwys. Mae ei chyflwyniad o orffennol Cymru yn rhannol, ac nid yw'n cyrraedd ei photensial i gyrraedd holl bobloedd Cymru, i fod yn wirioneddol ddemocrataidd yn ddiwylliannol a chael ei sbarduno gan anghenion cymdeithasol y Gymru gyfoes.

Bydd cais llwyddiannus i Gronfa Treftadaeth y Loteri yn galluogi Sain Ffagan i weithio gyda'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu i adnewyddu ei hun fel amgueddfa, i ddarparu cyfleusterau a fyddai'n gosod y llwyfan ar gyfer amryw o fentrau a rhaglenni newydd i drawsnewid Sain Ffagan yn amgueddfa wirioneddol genedlaethol o safon ryngwladol.



2.2 Pam mae Sain Ffagan yn bwysig

2.2.1 Amgueddfa pobl

Mae gan Sain Ffagan le arbennig yng nghalonau pobl Cymru. Roedd yn sefydliad radical pan gafodd ei sefydlu, gan ei fod yn ymwneud â bywydau bob dydd pobl gyffredin. Mae'n dilysu bodolaeth pobl gyffredin, ac mae llawer o bobl yng Nghymru, o bob cenhedlaeth, wedi uniaethu ag ef ac mae ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth drosto. Yn ei hanfod, eu hamgueddfa nhw ydyw.

Mae Sain Ffagan yn ymwneud â phobl, a bydd yn parhau i fod felly – pobl mewn amser a lle, pobl yn eu hamgylchedd, ffyrdd pobl o fyw ar draws y canrifoedd a phobl a'u hymdeimlad o hunaniaeth. 'Amgueddfa'r Bobl' yw Amgueddfa Werin Cymru.

2.2.2 Un o'r amgueddfeydd profiad gwreiddiol

Drwy ail-greu'r lleoliadau gwreiddiol ar gyfer gwrthrychau y byddai amgueddfeydd confensiynol yn eu harddangos mewn casys gwydr, Sain Ffagan ac amgueddfeydd awyr agored eraill oedd yr amgueddfeydd profiad gwreiddiol. Roeddent yn annog pobl i ryngweithio'n uniongyrchol â'r gwrthrychau mewn amgylchedd hygrych.

Roedd hefyd yn amgueddfa awyr agored genedlaethol a grëwyd gyda'r nod o gynnal iaith a thraddodiad llafar, yn ogystal â diwylliant materol, gan gynnwys yn ei gylch gwaith 'gweithgareddau'r llaw', yn ogystal â'r 'meddwl a'r ysbryd'.⁵

Roedd yr Amgueddfa'n rhan o fudiad ledled Ewrop a oedd yn adlewyrchu cynnydd mewn cenedlaetholdeb ac awydd i gynnal ffyrdd traddodiadol o fyw, yn enwedig rhai cymunedau gwledig, yn wyneb newidiadau cymdeithasol a ddygwyd gan ddiwydianeiddio.

⁵ Iorwerth C. Peate (1948) *Folk Museums* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru



2.2.3 Pwysigrwydd economaidd

Er bod y project yn cael ei sbarduno gan ei ddiben deallusol ac athronyddol sylfaenol, mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd economaidd yr Amgueddfa hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo £7 miliwn ar gyfer y project ac mae'n ystyried bod gan Sain Ffagan gyfraniad hollbwysig i'w wneud at economi Cymru. Mae ei Rhaglen Lywodraethu bresennol yn tynnu sylw at yr angen i 'Ddatblygu Sain Ffagan ymhellach fel atyniad diwylliannol sylweddol a phorth ymwelwyr i Gymru'. Mae Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw yn yr un modd at rôl hollbwysig yr Amgueddfa o ran goresgyn yr hyn a ystyrir yn eang fel darnio wrth adrodd stori Cymru drwy 'ddarparu trosolwg synoptig o hanes Cymru, fel trosolwg syml un stop y mae'n rhaid ei weld, ar y safle treftadaeth yr ymwelir ag ef fwyaf yng Nghymru'.

Amcangyfrifir y bydd y project yn cynhyrchu 100 o swyddi FTE, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn ystod y cyfnod adeiladu, a 49 o swyddi FTE, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn barhaol. Bydd hefyd yn darparu 600 o gyfleoedd gwirfoddoli cynhwysfawr, 400 o gyfleoedd gwirfoddoli achlysurol ac yn darparu sgiliau a hyfforddiant i'r rhai sydd allan o waith. Bydd yr Amgueddfa ei hun yn cynhyrchu £500,000 ychwanegol o incwm y flwyddyn ac yn creu amcangyfrif o £5.5 miliwn o incwm ychwanegol ar gyfer ardal Caerdydd. Bydd yn gwneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy sylweddol at gefnogi bywiogrwydd economaidd cyffredinol a 'brand' Caerdydd. Drwy ei rôl fel porth i atyniadau treftadaeth eraill yng Nghymru, bydd yn ymestyn manteision economaidd i weddill Cymru hefyd. (Gweler y Maniffesto Economaidd Cryno).

Erbyn y 1980au, gan ymateb i'r ymdeimlad o golled a grëwyd gan ddad-ddiwydianeiddio llawer o gymunedau Cymru, roedd yr Amgueddfa wedi dechrau dehongli'r rôl yr oedd ganddi o ran creu hunaniaeth Gymreig benodol. Dechreuodd hyn broses o drawsnewid ac adnewyddu y mae'n rhaid iddi barhau os yw'r Amgueddfa am aros yn berthnasol a bod yn 'ddrych i'r genedl', yn ôl ei dyhead gwreiddiol.

Y nod yw creu'r un ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth o'r Amgueddfa a deimlir gan drigolion cefn gwlad Cymru ym mhob sector o gymdeithas Cymru. Mae'r project hwn yn barhad o'r broses honno. Bydd Sain Ffagan yn adeiladu ar ei threftadaeth radical i greu amgueddfa gyfranogol sy'n mynd i'r afael ag anghenion Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.



‘Rwy'n falch o Sain Ffagan ac mae'n bwysig dangos y gorffennol, ond y gorffennol yw e ... ac mae'n bwysig bod yn glir am hynny. Nid dyma'r ffordd rydyn ni'n byw nawr... Y broblem yw ei fod yn gwneud i bobl feddwl ein bod ni wedi aros yn yr unfan.’

Aelod o grŵp ffocws, 2002

(Astudiaeth o ymwelwyr a'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddi-Gymraeg)

2.3 Pam mae angen i Sain Ffagan newid

Mae Cymru heddiw, gyda'i llywodraeth ei hun, yn wlad wahanol iawn i'r un a oedd yn rhan o Brydain ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae dad-ddiwydianeiddio wedi gadael cymunedau cyfan mewn trawma, yn wynebu heriau difrifol o ran tlodi a diweithdra. Mae twf cymunedau cyfaneddwy'r wedi gwneud y cysyniad o hunaniaeth Gymreig unigol hyd yn oed yn fwy o anacroniaeth nag yr oedd eisoes yng nghanol yr 20fed ganrif.

Bydd y project hwn yn cefnogi ein gwaith gyda chymunedau i archwilio'r modd y mae diwylliannau amrywiol wedi uno mewn hunaniaethau Gymreig newydd, gan ein helpu i ddatblygu atyniad mwy perthnasol i gynulleidfaoedd newydd.

Mae angen i Sain Ffagan newid, a pharhau i newid, gyda'i chymunedau. Mae angen amgueddfa ar y genedl sy'n cydnabod yn llawn fywydau'r bobl sy'n byw mewn trefi diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol, yn ogystal ag ardaloedd gwledig, a chyfaneddwy'r diweddar, yn ogystal â'r diwylliannau a'r traddodiadau hynny sydd eisoes wedi'u cydnabod fel rhan o'n hanes.

Mae llawer o amgueddfeydd yn mynegi diwylliant drwy ddadansoddi gwrthrychau ffisegol, yn aml o safbwynt un ddisgyblaeth. Mae dadansoddiad o'r fath yn hanfodol er mwyn hyrwyddo ein dealltwriaeth o'r byd, ond nid dyma'r unig fodel. Mae'n hepgor yr holl ddimensiynau hanfodol hynny o ddiwylliant – meddyliau, teimladau a gweithredoedd – na ellir eu hamgodio neu eu cyfleu yn rhwydd mewn gwrthrychau.

Mae Sain Ffagan wedi cynnig diffiniad cwbl wahanol o amgueddfa erioed ac, mewn sawl ffordd, un cyfoes. Mae'n un lle mae diwylliant yn broses fyw. Mae rhyngweithio dynol ac ymgysylltiad personol gweithredol wrth wraidd gwaith ein hamgueddfa, a gellir datblygu'r cyfranogiad hwn yn adfywiad economaidd a diwylliannol.

Mae hwn yn ddull mwy democrataidd, sy'n parchu'r cyfraniad a wneir gan y boblogaeth gyfan at ddatblygiad diwylliannol. Mae ymwelwyr ag amgueddfeydd, a'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau y maent yn perthyn iddynt, yn geidwaid diwylliant ac yn cyfrannu ato, yn hytrach na bod yn ddefnyddwyr goddefol yn unig, felly maent yn haeddu parch.

Mae Sain Ffagan wedi bod yn allweddol wrth ddiogelu a hyrwyddo llawer o dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol Cymru. Wrth i'r genedl fodern newid, mae'r gwaith hwn mor angenrheidiol, ac mor arwyddocaol, i Gymru ag erioed.



3 Y sefyllfa ar hyn o bryd

3.1 Ymrwymiad Amgueddfa Cymru i gynnwys pobl

3.1.1 Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Fel rhan bwysig o Amgueddfa Cymru, mae Sain Ffagan yn rhan annatod o gyflawni gweledigaeth y sefydliad ar gyfer y dyfodol.

Ers ei sefydlu gan Siarter Frenhinol dros gan mlynedd yn ôl ym 1907, mae Amgueddfa Cymru wedi cadw ei chasgliadau mewn ymddiriedolaeth ar ran pobl Cymru. Mae datganiad gweledigaeth deng mlynedd corfforaethol Amgueddfa Cymru, **Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol: Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol**⁶ yn ein hymrwymo i ddatblygu cysylltiadau â chynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, ac i greu cyfleoedd pellach i ymwelwyr a defnyddwyr presennol drwy ymateb yn fwy cadarnhaol i'w hanghenion. Gwneir ymrwymiad penodol i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn tri maes blaenoriaeth:

- dod o hyd i lwybrau i wneud synnwyr o'r byd ... drwy ddysgu gan ein hymwelwyr
- dysgu drwy rannu ... drwy ddod o hyd i ffyrdd o groesawu ac ymgysylltu â phobl nad ydynt yn ymweld â'n hamgueddfeydd ar hyn o bryd; a
- thyfu drwy ddysgu ... drwy gymryd rhan mewn deialog a gweithgareddau meincnodi gyda'n partneriaid, rhanddeiliaid a grwpiau cyfoedion, i ddatblygu ein hymarfer proffesiynol ein hunain ymhellach a gwella ansawdd ein hamgueddfeydd fel lleoedd i weithio ac ymweld â nhw.

3.1.2 Y cefndir

Mae ymestyn allan a chynnwys cymunedau wedi cael ei adlewyrchu yn y Siarter erioed; roedd Llys Amgueddfa Cymru, a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1907, yn gweithredu fel corff llywodraethu ac ymgynghorol ac roedd ei aelodau'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid. Yn ystod 2005/06, gwnaeth Amgueddfa Cymru gynnydd o ran paratoi cynigion ar gyfer diwygio ei llywodraethu i adlewyrchu datganoli llywodraeth a datblygiadau eraill.

Roedd y broses hon yn adeiladu ar waith y broses o greu gweledigaeth ac argymhellion adolygiad pum mlynedd cynharach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er bod Amgueddfa Cymru yn Gorff Siarter Frenhinol ac yn Elusen Gofrestredig, mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru hefyd, felly mae wedi ymrwymo i gefnogi Agenda Strategol Llywodraeth Cymru fel y nodir ar hyn o bryd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2011-16⁷. Yn benodol, mae Amgueddfa Cymru yn cefnogi ac yn cyfrannu at agenda 'Creu Cysylltiadau'⁸ y Llywodraeth, sy'n hyrwyddo, ymysg pethau eraill, cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol rhwng y cyhoedd a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

3.1.3 Strategaeth Tlodi Plant

Mae Gweinidog Tai, Adfywio a Diwylliant Llywodraeth Cymru wedi dweud bod tlodi plant yn flaenoriaeth i'r sector diwylliannol yng Nghymru. Yn 2009, ymrwymodd Amgueddfa Cymru i'r Cytundeb Tlodi Plant, gan ddweud y byddem yn gwneud ymrwymiad gweithredol i helpu i wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi gosod dyletswydd gyfreithiol arnom erbyn hyn (ymhlith Awdurdodau eraill Cymru) i ddatblygu a chynhyrchu Strategaeth Tlodi Plant sy'n dangos y camau y byddwn yn eu cymryd i gyfrannu at yr agenda hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar 'leihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant)'.

Bydd ein Strategaeth Tlodi Plant yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31 Mawrth 2012. Caiff ei hadolygu'n flynyddol. Fel rhan o'r strategaeth hon, byddwn yn cyhoeddi Siarter Plant blynyddol hefyd.

3.1.4 Polisiâu eraill Amgueddfa Cymru

Mae gennym bolisiâu a strategaethau eraill hefyd sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynnwys pobl:

- y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n egluro ein polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i staff, gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n defnyddio'n gwasanaethau
- y Polisi a'r Strategaeth Dysgu a Mynediad, wedi'u hadeiladu ar draddodiad hir o weithgarwch addysgol, sy'n tarddu o'n cyfrifoldeb i addysgu'r cyhoedd
- Strategaeth Dysgu a Dehongli Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru (gweler Atodiad 1)
- Strategaeth Cyfryngau Digidol ar gyfer Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, sy'n egluro sut y byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr mewn cyfranogiad rhithwir â chasgliadau a gweithgareddau'r Amgueddfa (gweler Atodiad 2)
- Strategaeth Wirfoddoli, sy'n cyflwyno egwyddorion eang ar gyfer gwirfoddoli yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru (gweler Atodiad 3)
- Cynllun Hyfforddi a Datblygu Creu Hanes yn Sain Ffagan (gweler Atodiad 4)
- Strategaeth Werthuso Creu Hanes yn Sain Ffagan
- Strategaeth Farchnata Creu Hanes yn Sain Ffagan
- Polisi Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd ar gyfer Amgueddfa Cymru.

⁶Gweler <http://www.museumwales.ac.uk/en/visionmap>

⁷Gweler <http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929fullen.pdf>

⁸Gweler

<http://www.museumwales.ac.uk/en/visionmap/cydraddoldeb> ac

amrywiaeth i'w staff, gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaeth

3.2 Sut y gwnaethom greu'r Cynllun Gweithgareddau

3.2.1 Yr hyn rydym wedi'i ddysgu o arbrofion yn y gorffennol: Oriel 1 a Gwreiddiau

Yn ystod y degawd diwethaf, mae Sain Ffagan wedi gweithio i newid canfyddiad y cyhoedd o'i rôl ac ymgysylltu â phobl wrth ddatblygu cynnwys. Daeth enghraifft o hyn yn 2006-7 gydag arddangosfa arbrofol ar y thema 'perthyn' yn un o dair oriel dan do'r Amgueddfa, Oriel 1.

Defnyddiwyd sawl dull o ymdrin â chynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr a chyd-guradu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 'Eich Dreser Gymunedol', a oedd yn darparu llwyfan i grwpiau cymunedol ddewis ac arddangos eitemau o werth a phwysigrwydd iddynt. Bu'r cysyniad hwn yn boblogaidd ac, ers hynny, mae wedi'i addasu gan gymuned yng nghymoedd y De i ddehongli treftadaeth yn y fan a'r lle.
- Digwyddiadau ac arddangosiadau cydweithredol gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, a oedd yn myfyrio ar arferion sy'n ymwneud â chredoau e.e. gweithio gyda Phwyllgor Puja Cymru i ddod â dau artist o India i greu delwau o dduwiau Hindŵaidd. Cymerodd y rhain le delwau presennol y Pwyllgor, sydd wedi'u rhoi i'r Amgueddfa erbyn hyn, gan ein galluogi i sicrhau bod y gymuned Hindŵaidd yn cael ei chynrychioli'n barhaol yn ein casgliadau.
- Y Wal Ieithoedd, a oedd yn arddangos enwau 100 o ieithoedd sy'n cael eu siarad yng Nghymru erbyn hyn, wedi'u hysgrifennu â llaw gan bobl sy'n eu siarad.



Animeiddiadau, wedi'u hysbrydoli gan y casgliadau, a grëwyd gan dair ysgol gynradd o rannau gwahanol iawn o Gymru yn gweithio gyda Cinetig, cwmni animeiddio proffesiynol. Roedd yr ysgolion yn cynnwys ysgol gymunedol Gymraeg ei hiaith yn bennaf o'r Gogledd-orllewin, ysgol o dde Sir Benfro sy'n draddodiadol Saesneg ei hiaith ac ysgol yng nghanol dinas Caerdydd gyda thros 22 o ieithoedd cymunedol.

Mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod y cyfeiriad newydd wedi cael derbyniad gwresog. Fodd bynnag, cawsom wybod bod yr arddangosiadau a guradwyd gan y gymuned, er yn llwyddiannus, wedi'u sbarduno gan anghenion yr Amgueddfa, yn hytrach nag anghenion y cyfranogwyr, felly gellid ystyried bod 'diffyg-grymuso' yn eu nodweddu.⁹ Felly, mae Creu Hanes yn cael ei sbarduno gyda chynulleidfaoedd a chyfranogwyr, a chanddynt, i sicrhau amgueddfa gynaliadwy a pherthnasol ar gyfer y dyfodol.

Hefyd yn ystod 2006-7, symudwyd y casgliadau archaeoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i'r orielau arddangos dros dro fel rhan o raglen fawr o ailddatblygu ac adnewyddu. Roedd yr arddangosfa a ddeilliodd o hynny, *Gwreiddiau: Canfod y Gymru Gynnar*, yn gyfle i arbrofi gyda dulliau newydd o arddangos a dehongli, er mwyn paratoi ar gyfer adleoli'r arddangosiadau archaeoleg yn barhaol i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn y pen draw.



⁹ Gweler Bernadette Lynch, (2011), *Whose cake is it anyway? A collaborative investigation into engagement and participation in 12 museums and galleries in the UK*. Adroddiad cryno ar gyfer Sefydliad Paul Hamlyn

Cynhaliwyd rhaglen o ymchwil ymwelwyr, a oedd yn cynnwys staff ac ymgynghorwyr allanol. Tynnodd yr astudiaethau sylw at bwysigrwydd straeon dynol i ymgysylltiad ymwelwyr. Roedd saith o'r deg 'gorsaf' yr ymwelwyd â nhw fwyaf yn yr arddangosfa yn rhai a oedd â chynrychiolaethau o'r ffurf ddynol, boed hynny drwy ffotograffau, penddelwau efydd neu weddillion ysgerbydol. Bydd yr orielau newydd a grëwyd gan Creu Hanes yn ymgorffori personoli'r gorffennol ym mhob rhan o'u dehongliad.

Ym mis Ebrill 2010, cynhaliodd Morris Hargreaves McIntyre werthusiad ansoddol o *Gwreiddiau* a daeth i gasgliadau tebyg, sef bod elfennau mwyaf poblogaidd yr arddangosfa'n canolbwyntio ar y straeon dynol. Argymhellwyd dehongli haenog ac elfennau mwy rhyngweithiol i ddiwallu anghenion deongliadol eang ymwelwyr, yn enwedig anghenion teuluoedd. Canfuwyd bod ymwelwyr yn hoffi gallu gwneud cysylltiadau personol â'r gwrthrychau a'r straeon. I'r perwyl hwn, bydd cyflwyno cysylltiadau mwy clir a pherthnasol â'r presennol a theithiau dysgu gwahaniaethol yn cael eu datblygu gyda chymunedau yn y project hwn.



3.2.2 Yr hyn rydym wedi'i ddysgu gan eraill

Cyfranogi ac ymgysylltu

Mae ein penderfyniadau wrth greu ein rhaglen o weithgareddau wedi'u llywio drwy astudio ac arsylwi ar enghreifftiau sefydliadau eraill sydd ag enw da am arferion da o ran cyfranogi ac ymgysylltu â'r gymuned. Nid yw'r enghreifftiau a nodir yma yn hollgynhwysol o bell ffordd. Lluniwyd y rhestr hir gychwynnol o'r amgueddfeydd hynny a enwebwyd naill ai ar gyfer Gwobr Amgueddfa'r Flwyddyn/ Gwobr Gulbenkian/Gwobr y Gronfa Gelf, y Gwobrau Plant mewn Amgueddfeydd neu wobrau eraill (megis y gwobrau AHI nad ydynt yn bodoli mwyach).

Defnyddir amryw o dechnegau sylfaenol gan yr amgueddfeydd hynny sy'n dymuno datblygu cyfranogiad ac ymgysylltiad â'u defnyddwyr a'u cymunedau. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Ymgysylltu drwy'r cyfryngau digidol

Mae hyn yn cynnwys llwybrau realiti estynedig a chynnwys defnydd personol; tagio; hwyluso sylwadau cyhoeddus amserol a bwydo hyn i mewn i arddangosiadau sy'n esblygu e.e.

- tagio casgliadau ar y wefan (Horniman Museum)
- arddangosfeydd rhithwir gan grwpiau cymunedol a grwpiau anodd eu cyrraedd (Herbert Museum, Coventry)
- llwybrau tref realiti estynedig (Harris Museum, Preston; 'Streetmuseum', Museum of Londod))
- ymgynghoriad cymunedol ar faterion cyfoes ar y wefan ac mewn orielau (M Shed, Bryste)
- cyrchu torfol (People's Collection; V&A; London Transport Museum; M Shed)
- apelio at gynulleidfaoedd arbenigol (Tate)
- cysylltu atyniadau, digwyddiadau a chyfeiriadedd (Kew Gardens)
- cyhoeddi data casgliadau (The Brooklyn Museum; Culture Grid)

Ymgynghoriad cymunedol ar gyfer datblygiadau newydd a gwaith parhaus

- ar gyfer yr oriel 'Story of Preston' sydd ar y gweill (Harris Museum, Preston)
- 'Birmingham – a City in the Making' (Birmingham Museums)
- grwpiau rhanddeiliaid o gymunedau, ieuenctid, blynyddoedd cynnar, athrawon ac oedolion ag anawsterau dysgu (Museum of Liverpool; Colchester and Ipswich Museums)

Mannau arddangos cymunedol

- gofod pwrpasol ar gyfer arddangos casgliadau preifat ('Finders Keepers', Royal Albert Museum, Caerwysg)
- casys a phaneli arddangos bach ar gyfer pob maestref/cymuned yn yr arddangosiad craidd ar hanes Bryste (M Shed)
- rhaglen dreigl o arddangosiadau bach dros dro ar/gan grwpiau cymunedol mewn tair oriel (Museum of Liverpool).
- man arddangos cymunedol (Kelvingrove, Glasgow)
- oriel gymunedol (People's History Museum, Manceinion)
- project 'Mapping the change' i gofnodi effaith gymunedol creu safle'r Gemau Olympaidd yn nwyrain Llundain (Hackney Museum)

Hwyluso adrodd straeon personol drwy'r casgliadau

- 'Moving here' (Royal Albert Museum, Caerwysg)
- project adrodd straeon digidol (Tyne & Wear Museums)
- amrywiol, yn enwedig 'Postcodes project' (Museum of London)

Annog a hwyluso arsylwi personol ac integreiddio hyn mewn arddangosiadau ac arddangosfeydd

- 'Moving here' (Royal Albert Museum, Caerwysg)
- projectau Olympiad Diwylliannol (yn enwedig Leeds, Newcastle, Efrog, Gogledd Iwerddon)
- integreiddio ffilmiau o ffonau symudol gan filwyr ar y rheng flaen yn Irac ac Affganistan (National Army Museum)

Paneli ieuenctid

- Creative Consultants (Manchester Art Gallery)
- New Youth Panel (Horniman Museum)
- The Preservative Party (Leeds City Museum)

Gwirfoddoli therapiwtig a chefnogol

- Norton Priory
- Museum of East Anglian Life

Rhaglenni dysgu gydol oes a phrentisiaethau

- Museum of East Anglian Life
- Gressenhall
- Weald & Downland Museum

Menter gymdeithasol

- Museum of East Anglian Life



Ffactorau sy'n galluogi amgueddfeydd i ymgymryd â chyfranogiad ystyrlon

Mae cymaint o waith da mewn amgueddfeydd yn dibynnu'n bennaf ar awydd a gallu staff medrus i ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu mewn ffyrdd ystyrlon ac effeithiol. Wrth i'r bobl hyn ddatblygu eu gyrfaedd, mae eu 'hysbryd ymgysylltu' yn symud gyda nhw i sefydliadau eraill.

Yn yr un modd, mae'r newid mewn agendâu gwleidyddol a chyllidebau sy'n crebachu, ynghyd â grantiau ariannu mawr, yn parhau i newid cyfeiriad gwaith amgueddfeydd, gan beryglu cynaliadwyedd hirdymor y cysylltiadau a sefydlwyd gyda chymunedau.

O arsylwi a thrafod gyda chymheiriaid mewn sefydliadau eraill, rydym wedi nodi'r ffactorau canlynol sy'n galluogi amgueddfeydd i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ystyrlon:

- strategaeth raglennu (a chyllideb) sydd â'r nod o ddatblygu ac adnewyddu arddangosiadau a dehongliad yn barhaus
- strategaeth raglennu i annog syniadau ar gyfer arddangosfeydd gan y cyhoedd
- strategaeth raglennu sy'n rhoi amser i ddigwyddiadau amgueddfeydd gael eu sefydlu a'u hymwreiddio yn ymwybyddiaeth y cyhoedd fel 'traddodiad' o ymweld â'r amgueddfa ac ymgysylltu â'r amgueddfa
- manau pwrpasol ar gyfer arddangos gwaith a rhoi adborth
- defnyddio microwefannau ar gyfer projectau sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd dylunio a chynnwys y tu allan i gyfyngiadau arddull y brif wefan gorfforaethol
- cyfran uchel o'r casgliad ar gael ar-lein
- darparu gwaith menter gymdeithasol a phrentisiaethau mewn partneriaeth â cholegau AB ac AU lleol
- y gallu i ddarparu'r gofod ffisegol a thasgau parhaus i ddarparu ar gyfer gwaith menter gymdeithasol

- cyllideb a thîm pwrpasol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a hwyluso mewnbyn cymunedol
- parodrwydd staff a chyrrff llywodraethu i ymateb yn gadarnhaol i geisiadau
- staff ac adnoddau i ganiatáu ymgysylltu parhaus yn y tymor hir.

Amgueddfeydd hanes cenedlaethol ac amgueddfeydd awyr agored Ewrop

Ym mis Medi 2011, aeth Cyfarwyddwr Project ac Arweinydd Cynnwys Creu Hanes i 25ain gynhadledd Cymdeithas Amgueddfeydd Awyr Agored Ewrop (AEOM) yn y Weriniaeth Slofacaid a'r Weriniaeth Tsiec. Gwnaeth Cyfarwyddwr y Project gyflwyniad ar y project Creu Hanes yn Sain Ffagan, a gafodd dderbyniad brwdfrydig iawn gan gynrychiolwyr, yn enwedig cydweithwyr o wledydd gogledd Ewrop. Mae datblygu amgueddfeydd awyr agored cenedlaethol i fod yn amgueddfeydd hanes



cenedlaethol yn gyfeiriad mae llawer o'n cydweithwyr yn symud iddo. Roedd y Nederlands Openluchtmuseum yn Arnhem wedi'i glustnodi fel lleoliad Amgueddfa Hanes Genedlaethol newydd, ond nid yw cynlluniau'r llywodraeth yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Roedd yr amgueddfa ddadleuol hon i gyflwyno 50 o eitemau yn hanes cenedlaethol yr Iseldiroedd mewn ffordd ddidactig, wedi'u dewis ar gyfer 'canon' newydd ar gyfer addysgu hanes mewn ysgolion. Mae wedi ennyn llawer o ddadlau ymhlith academyddion ac athrawon am ei dull gweithredu o'r brig i lawr, gorfodaeth ac addysgeg wladol.

Mae amgueddfeydd awyr agored, fel sefydliadau sydd â thraddodiad o fabwysiadu dull 'hanes oddi isod', yn chwilio am ffyrdd o fod yn berthnasol i fywyd cyfoes, gan ddiweddarau eu casgliadau a'u gosod yng nghyd-destun naratifau hanesyddol ehangach heb aberthu'r ymgysylltiad cyhoeddus a fu'n gryfder iddynt. Yn dilyn y cyflwyniad yn y gynhadledd, penderfynwyd gwneud hyn yn thema cynhadledd yn y dyfodol.

Sain Ffagan sydd ar y blaen o ran creu cyfeiriad newydd ar gyfer amgueddfeydd awyr agored Ewrop, ac mae ganddi'r potensial i ddylanwadu'n fawr ar y sector.

Skansen, Amgueddfa Hanesyddol Sweden ac Amgueddfa Vasa

Yr ysbrydoliaeth ar gyfer Sain Ffagan a'r rhan fwyaf o amgueddfeydd awyr agored eraill Ewrop oedd Skansen yn Stockholm. Gwnaed ymweliad meincnodi â Skansen gan uwch dîm rheoli o Amgueddfa Cymru, yng nghwmni Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Cymru.

Mae Skansen yn denu 1.4 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, 60-70% ohonynt yn ymwelwyr dychwel, a'r rhan fwyaf ohonynt o ardal Stockholm. Mae ymweld â Skansen yn draddodiad yn Stockholm. Ar wahân i ddigwyddiadau ar raddfa fawr a gynhelir mewn ardal gyngherddau ddynodedig, maent yn canolbwyntio ar raglenni digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc i ddenu ymweliadau dychwel. Nododd Cyfarwyddwr Skansen ei bod yn cymryd tua thair neu bedair blynedd i ddigwyddiad sydd newydd ei sefydlu ddod yn 'draddodiad' ymhlith pobl Stockholm.

Er bod ganddynt dîm dysgu ac adeiladau da, yn wahanol i Sain Ffagan nid oes ganddynt adran ymchwil/curadurol ers iddynt hollti o Amgueddfa Nordiske rai blynyddoedd yn ôl. Mae hyn yn creu anawsterau iddynt, yn enwedig gyda'u pwyslais ar gywirdeb a dilysrwydd wrth amddiffyn a hyrwyddo Skansen fel brand. Fodd bynnag, mae gennym lawer i'w ddysgu ganddynt o hyd o ran sefydlu cysylltiadau hirdymor â'n cynulleidfaoedd.

Roedd Amgueddfa Hanesyddol Sweden, Historiska museet, yn gymhariaeth ddiddorol â chynlluniau Sain Ffagan ar gyfer amgueddfa hanes genedlaethol ddialogol. Maen nhw hefyd yn ceisio rhyngwynebu â chynulleidfaoedd ehangach a dysgu beth mae'r cyhoedd

yn ei werthfawrogi treftadaeth yn hytrach na'r farn arbenigol. Roeddent am i blant a phobl ifanc ddysgu sut i feddl yn eu hamgueddfa, yn hytrach na chael eu bwydo â gwybodaeth ffeithiol. Iddyn nhw, fel yn achos Sain Ffagan, roedd ymgysylltu â'r genedl ehangach (yn hytrach na Stockholm) yn her enfawr. Roeddent yn archwilio amryw o wahanol lwybrau cyfryngau newydd i oresgyn hyn.



Mae Amgueddfa Vasa, ar y llaw arall, yn amgueddfa syfrdanol – llong gyflawn a suddodd ym 1628 ac a gafodd ei hachub yn y 1960au. Fodd bynnag, nid yw'n atyniad i bobl Stockholm – pobl o'r tu allan yw ei chynulleidfaoedd yn bennaf, a phrin iawn yw'r ymweliadau dychwel. Mae angen mwy na rhywbeth i syfrdanu ymwelwyr i feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a thraddodiad o gyfranogiad.



Archaeoleg awyr agored ac arbrol

Mae archaeoleg awyr agored yn ffenomen sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar draws tir mawr Ewrop lle mae dros 300 o amgueddfeydd yn galw eu hunain yn 'amgueddfeydd awyr agored archaeolegol' (AOAMs). Mae'r rhain yn wahanol i amgueddfeydd awyr agored fel Skansen gan fod yr adeiladau sy'n ffurfio eu craidd yn adeiladau modern yn seiliedig ar dystiolaeth archaeolegol, yn hytrach na strwythurau hanesyddol wedi'u trawsblannu.

Mae'r diffyg dilysrwydd hanesyddol sy'n rhan annatod o'r gwahaniaeth hwn yn cynnig heriau a chyfleoedd i'r sefydliadau hyn. Mae perygl i AOAMs gael eu hystyried yn barciau thema arwynebol ac, i osgoi hyn, mae llawer yn clymu eu hunain i gymuned academiaidd, yn bennaf drwy is-ddisgyblaeth archaeoleg arbrol, er mwyn sicrhau bod eu cynrychiolaeth o'r gorffennol mor hanesyddol gywir â phosibl.



Mae'r prif gyfle a gynigir gan yr adeiladau mewn AOAMs yn deillio o'u ffabrigau modern – nid yw'r adeiladau'n werthfawr ynddynt eu hunain; gellir eu haddasu, eu tynnu i lawr neu eu hailadeiladu fel y bo'n briodol. Mae hyn yn ehangu'r amrywiaeth o ryngweithiadau a all ddigwydd ynddynt. Am y rheswm hwn, mae gan AOAMs gysylltiadau cryf yn aml â'r gymuned ailberfformio ac mae rhai yn annog defnyddwyr i fyw yn eu strwythurau. Mewn llawer o leoliadau, anogir ymwelwyr i fod yn ddefnyddwyr, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol.

Mae AOAMs yn cyfuno tair prif elfen o fewn eu cynnig i'r cyhoedd: adeiladau, ymarferol ac arbrol. Pwysleisir gwahanol elfennau yn wahanol ar draws Ewrop, ond mae'r



tair yn hanfodol: mae adeiladau heb weithgareddau'n wag ac yn ddi-nod, mae archaeoleg arbrol heb weithgareddau'n elitaidd ac yn anhygyrch, ac nid oes hygyrdd i adeiladau heb arbrolion ym marn defnyddwyr.



Mae gan Sain Ffagan lawer o'r seilwaith sydd ei angen i ddatblygu fel AOAM yn barod. Ers 2010, mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn aelod o EXARC, Sefydliad Cyswllt ICOM sy'n cynrychioli amgueddfeydd awyr agored archaeolegol ac archaeoleg arbrofol. Mae Sain Ffagan yn un o ddeg amgueddfa sy'n rhan o brosiect OpenArch EXARC i greu partneriaeth barhaol o amgueddfeydd awyr agored archaeolegol ledled Ewrop, gan gyfnewid arferion gorau rhwng amgueddfeydd er budd profiad ymwelwyr.

3.2.3 Pwy oedd yn rhan o'r broses o ddatblygu syniadau?

Mae'r Cynllun Gweithgareddau'n ganlyniad i gyfnod dwys o ymgynghori o fewn a'r tu allan i'r Amgueddfa. Dyma'r sylfaen ar gyfer ein holl waith yn y dyfodol, a bydd yn parhau nid yn unig dros oes y project ond hefyd y tu hwnt fel dull o ddatblygu'n barhaus mewn partneriaeth ag eraill. Er mai cyfrifoldeb Arweinydd Cynnwys y Project a'r Rheolwr Dysgu yn Sain Ffagan ydyw yn y pen draw, mae'r cynllun wedi elwa ar fewnbwn amryw o bobl:

Mewnbwn mewnol

Mae staff o'r adrannau canlynol yn Amgueddfa Cymru, ymhlith eraill, wedi llywio'r broses: Archaeoleg a Nwmismateg, Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol, Diwydiant, Celf, Dysgu, Rhaglennu, Cyfryngau Newydd, Marchnata, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru a Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru. Roedd mewnbwn gan y Pennaeth Rheoli Adeiladau ac Ystadau, yn ogystal â Phennaeth Sain Ffagan, y Prif Gadwraethydd, y Rheolwr Ystadau, Pennaeth yr Uned Adeiladau Hanesyddol, y Cydgysylltydd Gweithgareddau, y Swyddog Marchnata, y Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr a'r Swyddog Digwyddiadau ar y safle'n hanfodol hefyd.

Mae gan y project ddau aelod o staff hefyd sy'n ymroddedig i ymgysylltu â'r cyhoedd a chawsant gymorth gan yr Adran Polisi a Chynllunio Corfforaethol. Mae cyfarwyddiaeth Amgueddfa Cymru wedi rhoi cyngor a chymorth ym mhob cam wrth ddatblygu'r cynllun. Mae cyfanswm o 72 o aelodau staff wedi cyfrannu'n

uniongyrchol. Rydym wedi cynnal diweddariadau a thrafodaethau wythnosol ar brosiectau sy'n agored i'r holl staff, tra bod cyfarfodydd Bwrdd y Project a Grŵp Comisiynu'r Ymddiriedolwyr wedi ymgysylltu â'r rhai ar y lefel uchaf.

Mewnbwn allanol

Mae ein dull o ymgynghori'n allanol a chymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r project hwn wedi bod yn ddeublyg:

a. Cydweithio â phartneriaid posibl

Rydym wedi ymgysylltu â thros 130 o sefydliadau a chymdeithasau partner posibl. Rhaid i ni gydnabod bod gennym lawer i'w ddysgu gan sefydliadau sydd eisoes â dealltwriaeth ddofn o anghenion rhai sectorau. Sefydlwyd fforymau cyfranogol a fydd yn gweithio gyda ni gydol y project a thu hwnt.

Maent yn cynnwys:

- sefydliadau partner sy'n gweithio gyda gwirfoddoli
- Llysgenhaddon Ifanc (14-17 oed)
- sefydliadau partner sy'n gweithio gyda chymunedau amlddiwylliannol a Chymraeg
- sefydliadau partner sy'n gweithio gydag oedolion mewn dysgu anffurfiol
- fforwm dylunio defnyddwyr
- athrawon mewn ysgolion cynradd ac arbennig yn y De-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin
- athrawon uwchradd o'r De
- fforwm peilot sy'n edrych ar sgiliau Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol
- academyddion prifysgol sy'n ymwneud ag addysgu hanes, archaeoleg, y celfyddydau perfformio ac astudiaethau Cymreig.

Yn ogystal â'r sesiynau dwys hyn, rydym wedi cyflwyno ein cynlluniau a'n syniadau i amryw o sefydliadau proffesiynol a lleol e.e. Cyngor Sir Caerdydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, BBC Cymru, Ymchwil Hanes Cymru, Cadw,

Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Dylunio Cymru, Cymdeithas Amgueddfeydd Awyr Agored Ewrop, EXARC, Bwrdd Dyniaethau Cymru, UK Forum of History HMI Inspectorate, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Gwasanaeth Integreiddio Somaliaid, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol.

b. Cydweithio â defnyddwyr posibl

Rydym wedi sefydlu pedwar grŵp gwahanol o bobl ifanc i ddyfeisio a datblygu'r rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn y Cynllun Gweithredu. Mae'n arwyddocaol bod y pedwar grŵp wedi dweud mai rhyngweithio â'r casgliadau - yn enwedig y rhai y tu ôl i'r llenni - oedd ffocws eu diddordeb. Dewiswyd Fforwm Ieuentid Caerffili i weithio gyda chynrychiolwyr o'r fforymau athrawon i ddilyn a llywio cynnydd y Tîm Dylunio yng Nghamau AB a CD. Mae'r fforwm ar y cyd hwn yn awyddus i lywio'r broses ddylunio yn ei chyfanrwydd, hyd at gwblhau, gwerthuso a rhannu etifeddiaeth.

Bu grwpiau defnyddwyr newydd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a C2DE yn allweddol wrth dreialu amrywiaeth o weithgareddau posibl. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Genesis Cymru (Rhieni Sengl Di-waith) yn profi potensial y casgliadau wrth ddatblygu sgiliau rhianta, grwpiau teuluol o'r gymuned Somaliaidd yng Nghaerdydd yn samplu syniadau ar gyfer gweithdai creadigol, MENCAP Cymru yn gweithio ar adnoddau i wella mynediad a dehongliad y safle ar gyfer plant ac oedolion anabl, a The Parade, sy'n arbenigo mewn Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) i ddatblygu adnoddau ar gyfer oedolion nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg fel eu hiaith gyntaf.



3.3 Yr hyn rydym yn ei wybod am ein cynulleidfaoedd presennol

Sain Ffagan yw prif atyniad treftadaeth Cymru. Ers cyflwyno mynediad am ddim yn 2001, rydym wedi denu 621,933 o ymwelwyr y flwyddyn ar gyfartaledd a, rhwng 2010 a 2011, ymgysylltodd 250,000 o bobl â Sain Ffagan ar-lein.


Mae niferoedd ymwelwyr wedi bod yn weddol sefydlog rhwng 2002 a 2010, yn amrywio o'r ffigur isaf o 582,798 o ymwelwyr yn 2005/06 i'r ffigur uchaf o 674,678 yn 2007/08 (pan agorwyd yr eglwys ganoloesol a'r arddangosfa *Perthyn*). Y cyfnodau mwyaf poblogaidd i ymweld yw adeg y Pasg a Mehefin-Medi (yn enwedig mis Awst). Mae'r cyfnod llai prysur naill ochr a'r llall yn cynrychioli cyfleoedd newydd i dyfu cynulleidfaoedd - cynnig haws i'w ystyried yn sgil creu mannau dan do a fydd yn lleihau canfyddiadau o Sain Ffagan fel cyrchfan mewn tywydd braf yn unig.

Mae gennym ganlyniadau astudiaethau ymchwil annibynnol niferus a gomisiynwyd, yn ogystal â'n systemau casglu data ein hunain i ddarparu gwybodaeth am ein defnyddwyr presennol a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr.¹⁰

3.3.1 Ein defnyddwyr

Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod o Gymru ac yn dod fel grwpiau teuluol. Teuluoedd yw 56% o'r holl ymwelwyr, ac mae nifer y teuluoedd â phlant o dan 5 oed yn gymharol uchel (12%), er bod nifer y bobl ifanc 16-24 oed yn isel. Mae 65% o'r holl ymwelwyr yn perthyn i raddau cymdeithasol ABC1, o gymharu â 43% o boblogaeth Cymru a

Geographical origination



59% o boblogaeth Caerdydd. Mae cyfraddau ymwelwyr dychwel yn uchel – mae 69% o'r ymwelwyr wedi bod i'r Amgueddfa o'r blaen.

Ar gyfartaledd, mae 90,000 o ymweliadau dysgu ffurfiol – 15% o'r holl ymwelwyr – â Sain Ffagan bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf gan ysgolion cynradd, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11 oed). Fel yn yr ystadegau dysgu anffurfiol, mae cydberthynas amlwg rhwng canran ac amllder ymweld a phellter o'r Amgueddfa. Mae'r rhan fwyaf o'r ymweliadau gan ysgolion uwchradd yn cael eu gwneud gan ysgolion o Ffrainc, tuedd rydym yn bwriadu gwneud iawn amdani drwy gynyddu'r capasiti ar gyfer grwpiau blwyddyn gyfan o fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru.


Ar-lein, mae gan Sain Ffagan hunaniaeth gref iawn, gyda'r rhan fwyaf o chwiliadau ar-lein yn defnyddio ffurf ar enw'r brand ac yn cyrraedd y wefan drwy Google neu beiriannau chwilio eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r traffig gwe yn tarddu o'r DU, gyda llawer ohono o Gymru.

Ond er bod ymwybyddiaeth uchel o Sain Ffagan a'i chynnig craidd, dengys ymchwil nad yw amrywiaeth ein safle'n cael ei adlewyrchu gan amrywiaeth ein hymwelwyr ar-lein, all-lein neu hyd yn oed ar y safle ac y dylem fod yn gwneud mwy i apelio at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.


3.3.2 Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Dengys ymchwil bod amryw o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddim yn ymweld ar hyn o bryd neu'n profi rhwystrau i gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Amgueddfa (gweler 3.4.4). Mae'r dystiolaeth ymchwil ymwelwyr yn awgrymu eu bod yn:


- gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
- oedolion a theuluoedd lleol, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd C2DE e.e. Y Tyllgoed, Pentrebane, Trelái a Chaerau yng Nghaerdydd; ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng nghymoedd y De
- ysgolion a chymunedau o ardaloedd gwledig yn y Gorllewin, y Canolbarth a'r Gogledd
- rhai grwpiau twristiaeth, yn enwedig cynyddu'r gyfran o farchnadoedd twristiaeth y DU e.e. marchnadoedd newydd sy'n dod i'r amlwg



Nifer yr ymweliadau dysgu ffurfiol yn ôl categori, 2008-10



Ffigurau ymwelwyr misol, 2002-10



Canran yr ysgolion a ymwelodd â Sain Ffagan yn ôl sir, 2009-10

¹⁰ Evaluation of how visitors use the St Fagans site among a mix of new, lapsed and current visitors, and families and adult only parties (164 sample size), Morris Hargreaves McIntyre (2008); Evaluation of St Fagans' galleries with families and independent adults (4 focus groups), Morris Hargreaves McIntyre (2009); Perceptions Study of St Fagans (300 telephone interviews), Morris Hargreaves McIntyre (2009); Visitor Profiling Study (775 exit interviews at St Fagans), Morris Hargreaves McIntyre (2009); Qualitative Evaluation of NMC's Origins gallery (discussion groups with socially-motivated and intellectually-motivated families) Morris Hargreaves McIntyre (2009); Museum electronic booking system which captures data relating to age, geographical region and Communities First areas with formal learning visitors.

3.4 Ymgysylltu a dehongli

3.4.1 Ymwybyddiaeth o Sain Ffagan a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig

Mae lefel uchel o ymwybyddiaeth o Sain Ffagan – roedd 98% o'r bobl a arolygwyd yn y dalgylch lleol wedi clywed am Sain Ffagan ac roedd bron pob un wedi ymweld â hi ar un adeg – dim ond 9% oedd erioed wedi bod i'r Amgueddfa o'r blaen.¹¹

Roedd gan ymatebwyr lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r cynnig craidd. Mae tua 70% yn gwybod am y gerddi, y parc, y Castell, yr anifeiliaid, y crefftwyr a'r bwyty ond roedd llai o ymwybyddiaeth o'r orielau, arddangosfeydd sy'n newid, digwyddiadau, gweithdai a'r maes chwarae. Mae hyn yn awgrymu mai'r sbardun ar gyfer ymweliadau dychwel yw pa mor ddymunol yw'r amgylchedd yn hytrach nag ymgysylltiad dyfnach ag amcanion dysgu'r Amgueddfa. Mae hon yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr ymgynghoriad â defnyddwyr a'r ymchwil ymwelwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer ailddatblygu, ac mae'r cynlluniau ar gyfer y project hwn wedi mynd i'r afael â hi.

Hyd yn oed pan fyddant wedi cyrraedd y safle, mae'n ymddangos nad yw llawer o ymwelwyr yn gwybod pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal ac, wrth adael y safle, nid ydynt yn ymwybodol o wybodaeth am ddigwyddiadau yn y dyfodol.¹² Mae angen darparu gwybodaeth ymgysylltu fanylach er mwyn osgoi ymwelwyr yn mynd i'r rhannau cyfarwydd o'r safle sy'n cael eu gorddefnyddio. Mae angen egluro hyn cyn i ymwelwyr cyrraedd ac ar ôl iddynt gyrraedd i'w galluogi i gynllunio eu hymweliad

3.4.2 Adborth ar brofiad ymwelwyr

Er gwaethaf y teimladau cadarnhaol ar y cyfan tuag at yr Amgueddfa, mae'r adborth a gafwyd drwy amryw o astudiaethau ymchwil ymwelwyr wedi dangos y gellid gwella profiad cyffredinol ymwelwyr (yn enwedig lefelau ymgysylltiad ymwelwyr) yn fawr.

¹¹ Visitor Profiling Study (775 exit interviews at St Fagans), Morris Hargreaves McIntyre (2009)

¹² Rhaglen ymchwil Digwyddiadau 1500-1700 ac Arddangosfa Creu Hanes a gynhaliwyd gan Cynulleidfaoedd Cymru, Medi 2011

Dehongli'r safle

- Mae diddanu'r plant yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar ddiwrnodau allan. Mae teuluoedd a phobl ifanc wedi dweud dro ar ôl tro eu bod am gael mwy o ryngweithio a digwyddiadau. Hoffai ymwelwyr gael mynediad at ddehongliad mewn gwahanol fformatau, gan wneud y profiad yn fwy ymdrochol.
- Un edefyn cyffredin yw eisiau gwybod mwy am 'sut roedd pobl yn byw yn y gorffennol' h.y. personoli'r hanes.
- Mae diddordeb mawr hefyd ym mhrosesau'r Amgueddfa – sut rydym yn gwybod beth rydym yn ei wybod, sut rydym yn penderfynu beth i'w gasglu.
- Mae'r ymdeimlad cryf o adnabyddiaeth gyda rhai arddangosion yn datgloi'r angen i gyfrannu at y straeon hefyd, i ychwanegu at yr wybodaeth a gedwir gan yr Amgueddfa.
- Mae'r diffyg gwybodaeth gyd-destunol ar y safle a'r themâu naratif i'w dilyn yn golygu bod llawer o ymwelwyr yn ei chael hi'n anodd cysylltu'r adeiladau â'i gilydd.
- Weithiau mae diffyg cysondeb yn yr wybodaeth a gynigir ar y safle gan staff blaen tŷ, a hefyd diffyg hyder ymhlith rhai grwpiau cymdeithasol i ofyn i staff.

Orielau

- Mae ymwybyddiaeth isel o arddangosiadau oriel yr Amgueddfa cyn neu hyd yn oed yn ystod yr ymweliad. Nid oes digon o amlygrwydd i ymwelwyr ar y llwybr i'r atyniadau awyr agored, felly nid ydynt yn gallu darparu'r cyd-destun a fyddai'n cyfeirio ymwelwyr yn ddeallusol at y safle awyr agored.
- Mae ymwelwyr yn disgwyl i ddehongliad mewn orielau fod yn ddiddorol ac yn gyffrous. Maent am gael naratif clir, gwybodaeth gyd-destunol fanwl a straeon i gefnogi gwrthrychau mewn amrywiaeth o fformatau (AV, sain, cyfrifiaduron, llwybrau, arddangosiadau staff, gweithgareddau). Mae ymwelwyr yn falch o weld mwy o ryngweithio yn Oriel 1, sef yr oriel a adnewyddwyd yn fwyaf diweddar. Mae ymwelwyr wedi disgrifio'r oriel fel un ddisglair, fodern a chyfeillgar i deuluoedd, er nad oes naratif amlwg a fyddai'n ei chysylltu â gweddill yr Amgueddfa. Mae'r orielau eraill ymhell o gynnig y profiad rhyngweithiol ac ymdrochol mae ymwelwyr yn ei fynnu bellach.

‘Byddem yn dod i Sain Ffagan yn amlach pe baem yn gwybod mwy amdano chi a'r hyn y gallwch chi ei gynnig.’

[Chris Meredith, Cydgysylltydd Cymunedau yn Gyntaf, Pont-y-gwaith \(Cyfeiriad 6, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Doeddwn i ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n cynnal digwyddiadau, dydych chi ddim yn meddwl am y math yna o beth mewn gwirionedd, ond mae'n edrych yn eithaf diddorol. Efallai y gwna i fynd â fy mrawd, mae'n 11 oed ... efallai y bydd yn gweld rhywbeth yno a fyddai o ddiddordeb iddo.’

[Menyw, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 20-40 oed, Casnewydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

‘Ni wnaeth unrhyw beth ddal fy sylw i wrth ddod i mewn drwy'r brif fynedfa i ddweud wrtha i am ddigwyddiad y Tuduriaid y penwythnos hwn. Byddai'n well gen i gael rhywbeth yn fy nharo i'n syth.’

[Ymwelydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, arolwg ymwelwyr Cynulleidfaoedd Cymru\)](#)

‘Mae'r cysylltiad emosiynol â'r gorffennol yn bwysig iawn. Rydych chi'n teimlo'n agosach at bobl y gorffennol. Dydw i ddim yn hoffi darllen gwybodaeth, ond byddai troslais yn dda, pobl yn adrodd eu straeon eu hunain.’

[Aelod o Glwb Ieuencid Llanharan \(Cyfeiriad 3, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Sori, anghofiais i dynnu lluniau, roeddwn i wedi fy llethu gan gymaint o atgofion.’

[Cyfranogwr o Ysgol Fro a'r Project Rhianta \(Cyfeiriad 26, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Pan fydda i'n dychwelyd i Bacistan, gan ein bod ni'n dod o wlad Ewropeaidd, maen nhw'n rhoi cadair i chi, bwrdd i chi, rwy'n dweud wrthyn nhw 'Dydw i ddim eisiau hyn, rydw i am fyw fel rydych chi'n byw, rydw i am fwyta'r hyn rydych chi'n ei fwyta ... profi'r peth'. Rwy'n hoffi'r profiad.’

[Dyn, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, 41-60 oed, Casnewydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

‘Mae'n deimlad hyfryd a chynnes sy'n mynd â chi yn ôl mewn amser. Mae mam-gu rhywun wedi bod yno a byw yn yr oes honno.’ [Menyw, Du / Du Prydeinig, 41-60 oed, Caerdydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

‘Mae grwpiau fel ni angen llawer o bethau i gadw'r plant i fynd, mae angen llawer o weithgareddau 'ymarferol.’

[Aelod o'r rhaglen deuluol Keeping You in School \(Cyfeiriad 26, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Mwya'n byd o weithgareddau, gorau oll, yn enwedig gan eu bod yn helpu i ddenu plant.’

[Ymwelydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, arolwg ymwelwyr Cynulleidfaoedd Cymru\)](#)

3.4.3 Ymddygiad ar-lein

Ar hyn o bryd, mae ein defnyddwyr ar-lein yn awyddus i ddarllen tudalennau ar y safle am sut i gyrraedd Sain Ffagan a gwybodaeth ymarferol arall, ond maent yn llawer llai tebygol o ymgysylltu â'r cynnwys ar lefel ddyfnach. Er bod yr Amgueddfa wedi bod yn adeiladu rhwydwaith cryf drwy Twitter a Facebook a bod ganddi'r strwythurau technegol ar waith i feithrin cyfranogiad ar ei gwefan ei hun, ni fu dull strategol o ddarparu cyd-destun ar gyfer deialog â'r defnyddiwr. Ar adeg pan fo pobl yn disgwyl cymryd rhan ar wefannau, ar hyn o bryd nid oes unrhyw swyddogaeth ar wefan Sain Ffagan i ddefnyddwyr gyfrannu eu syniadau at drafodaeth, uwchlwytho enghreifftiau o'u gwaith creadigol neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd at adeiladu democratiaeth ddiwylliannol.

3.4.4 Ymchwil ar bobl nad ydynt yn ymwelwyr: dadansoddi rhwystrau

Cynhaliwyd ymchwil ac ymgynghoriad hefyd gyda grwpiau nad ydynt yn ddefnyddwyr neu grwpiau heb gynrychiolaeth yn Sain Ffagan ar hyn o bryd:

- Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan staff yn haf 2011 yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau rydym yn ei chael hi'n anodd eu cyrraedd. Roedd y rhain yn cynnwys
 - fforymau cyfranogol a threialu gweithgareddau posibl (pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion CD2E, grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, ysgolion o'r Gogledd)
 - sefydliadau partner posibl sy'n gweithio gyda'n cynulleidfaoedd targed
- Roedd dros 130 o grwpiau'n ymwneud â datblygu Creu Hanes ac roedd dros 72 o aelodau staff yn ymwneud ag ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd (gweler Adroddiadau a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiadau 1 a 6 i gael rhagor o wybodaeth)
- Ymchwil ar ganfyddiadau'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr amgueddfeydd ac Amgueddfa Cymru gan Cynulleidfaoedd Cymru yn 2008. Roedd hyn ar ffurf pum grŵp ffocws gydag ymatebwyr nad ydynt yn ymwelwyr o raddau cymdeithasol BC1 a C2D; roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr blant dibynnol
- Ymchwil gan Research Centre for Museums and Galleries (RCMG) Prifysgol Caerlŷr yn 2002 ar ddatblygu strategaethau ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd

newydd a chyfrannu at agenda cynhwysiant cymdeithasol Llywodraeth Cymru (6 grŵp ffocws)

- Astudiaeth werthusol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2011 gan Beaufort Research Ltd i archwilio canfyddiadau o atyniadau hanesyddol, ac o Sain Ffagan, ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a phobl Dosbarth Gweithiol Gwyn yn y De (6 grŵp ffocws ar draws y cynulleidfaoedd hyn yn y De-ddwyrain gydag ymwelwyr achlysurol ac ymwelwyr dychwel â Sain Ffagan, a'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr).

Cynhyrchodd yr astudiaethau hyn ganfyddiadau cyffredin ynghylch rhwystrau i ymweld, yr ydym wedi'u crynhoi yn yr adrannau canlynol.

Dim digon i blant

Er gwaethaf cydnabod gwerth a phwysigrwydd amgueddfeydd, yn enwedig wrth ymweld dramor, nid oedd amgueddfeydd yn cael eu hystyried yn gyrchfan hamdden gartref ac nid oedd ymatebwyr yn cael eu hysgogi gan y cyfleoedd dysgu mewn amgueddfeydd. Yn hytrach, roeddent yn cael eu hysgogi gan weithgareddau cymdeithasol a theuluol y gallent eu mwynhau mewn awyrgylch hamddenol a chroesawgar.

Roedd yr ymatebwyr yn frwdfrydig ynghylch cael mynediad am ddim. Fodd bynnag, y rhwystr mwyaf cyffredin i ymweld ag amgueddfa yw'r canfyddiad na fyddai eu plant yn mwynhau eu hunain, gan y byddai'n well ganddynt weithgareddau megis nofio neu fynd i'r sinema. Roedd llawer yn teimlo bod ffyrdd haws o ddiddanu plant na thrwy fynd â nhw i Sain Ffagan. Nid oeddent yn disgwyl y bydd llawer o 'hwyl' i gael.

Dim ond ar gyfer plant iau?

Yn baradocsaidd, roedd llawer o aelodau'r fforymau ieuenctid yn ystyried Sain Ffagan yn lle i blant ifanc ac nid yn lle iddyn nhw. Ychydig iawn a oedd yn sylweddoli bod casgliadau ac orielau yn y Prif Adeilad. Dangoswyd diddordeb nas rhagwelwyd mewn casgliadau materol a phrosesau'r amgueddfa. Yr uchafbwynt i lawer o'r bobl ifanc yn y fforymau oedd taith i'r storfeydd i edrych ar y gwrthrychau. Cawsant eu llethu gan ehangder a dyfnder y casgliadau a gwnaethant fynegi barn y dylai'r gwrthrychau fod wrth wraidd pob profiad.

Roedd llawer wedi bod i Sain Ffagan o'r blaen fel rhan o daith ysgol. Pwysleisiodd trefnwyr ieuenctid a phobl

ifanc na ddylai gweithgareddau amgueddfeydd i bobl ifanc efelychu'r hyn y gallent ei wneud yn yr ysgol neu drwy'r gwasanaethau ieuencid. Y teimlad cyffredinol oedd y dylai gweithgareddau corfforol, ymarferol, datrys problemau, ailberfformio a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol fod yn rhan o'r rhaglenni a ddatblygir ar gyfer pobl ifanc.

Does dim byd yn newid

Thema gyffredin oedd yn codi'n rheolaidd oedd y canfyddiad nad oedd yr arddangosion yn newid llawer, felly nid oedd cymhelliad i ailymweld. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth oedd o'r rhaglenni digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n newid. Er enghraifft, pan gyflwynwyd disgrifiad cryno o'r hyn sydd gan Sain Ffagan i'w gynnig ar hyn o bryd gan Beaufort Research, roedd cyfranogwyr yr arolwg wedi synnu'n fawr at y cyfeiriad at ddigwyddiadau.

Rhodddwyd sawl awgrym ar gyfer targedu cymunedau penodol yn fwy effeithiol wrth farchnata'r Amgueddfa, er enghraifft, drwy fosciau, canolfannau cymunedol a chanolbwyntiau eraill yn y gymuned megis y dafarn leol. Pwysleisiodd pobl ifanc yn arbennig y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i ledaenu gwybodaeth. Pwysleisiodd oedolion a phobl ifanc bwysigrwydd 'llysgenhadon' o fewn cymunedau a gwnaethant fynegi parodrwydd i weithredu felly ar ôl cymryd rhan mewn fforymau cyfranogol.

‘Nid yw pawb yn teimlo'n ddigon hyderus i fynd at staff yn y tai. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus nawr ar ôl cael mwy o wybodaeth a chyfle i siarad mewn grŵp bach.’

[Aelod o grŵp Genesis \(Cyfeiriad 24, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Mae pobl dosbarth gweithiol yn hoffi cael hwyl. Yn fy marn i, mae Sain Ffagan ar gyfer pobl dosbarth canol.’

[Dyn, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 20-40 oed, Caerdydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research,\)](#)

‘Fel arfer, dydych chi ddim yn gweld amgueddfeydd awyr agored, ydych chi? Cefais i fy synnu o'ch clywed yn dweud hynny. Mae pob un rydw i wedi bod iddi wedi bod yn amgueddfa dan do... Oes [Mae gen i ddiddordeb]. Roeddwn i wedi synnu.’

[Dyn, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, 41-60 oed, Casnewydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

Amgueddfeydd a hanes ddim iddyn nhw

Sain Ffagan yw'r amgueddfa fwyaf adnabyddus ac yr ymwelir â hi fwyaf o fewn teulu Amgueddfa Cymru, ond nid oedd llawer o oedolion wedi ymweld ers eu plentyndod. Mae gan lawer o bobl ganfyddiadau ystrydebol o amgueddfeydd fel mannau llychlyd, statig gyda gwrthrychau mewn casys gwydr. Nid yw'r term 'amgueddfa' ynddo'i hun yn ddeniadol i lawer fel dewis ar gyfer diwrnod allan. Canfu astudiaeth gan Beaufort Research fod hyn yn arbennig o wir am y cyfranogwyr dosbarth gweithiol gwyn iau yn eu grwpiau ffocws. Yn baradocsaid, er bod rôl addysgol yr Amgueddfa yn cael ei hystyried yn bwysig, i rai oedolion â phlant ifanc mae'n rhwystr hefyd, oherwydd eu profiadau negyddol eu hunain mewn addysg a'u diffyg hyder.

Ystyriwyd bod gan staff yr amgueddfa rôl diogelwch yn hytrach na rôl gofal cwsmeriaid neu ddehongli. Weithiau, roeddent yn cael eu hystyried yn oeraidd, yn anwybodus ac yn anodd mynd atynt. Fodd bynnag, dywedodd rhai bod Sain Ffagan, ynghyd â Big Pit, yn llai 'diflas' ac yn fwy o 'hwyl' nag amgueddfeydd eraill Amgueddfa Cymru.

Bydd y project hwn yn sicrhau y gall Sain Ffagan helpu i ailddiffinio'r cysyniad o 'amgueddfa' i'r rhai nad ydynt yn ymweld ar hyn o bryd, gan bwysleisio mynediad at gasgliadau, rhyngweithio, dehongli cyfoes a pherthnasedd casgliadau'r Amgueddfa i fywydau ac anghenion ymwelwyr posibl.

Fodd bynnag, er nad oeddent yn ymwelwyr rheolaidd ag amgueddfeydd, roedd yn ymddangos bod gan y rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr lawer o syniadau a chyfeiriadau hanesyddol i'w cyfrannu at drafodaethau ar raglennu digwyddiadau ac arddangosfeydd. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfraniadau'n pwysleisio'r galw am arddangosiadau ymarferol, dehongli wyneb yn

wyneb, hanes cymdeithasol, perthnasedd lleol, straeon rhyfeddol, 'dod â chasgliadau'r Amgueddfa'n fyw' a phwysigrwydd gallu uniaethu â thema arddangosiad.

‘Mae'n rhy debyg i ysgol iddyn nhw, dydw i ddim yn dweud pob plentyn ond y rhan fwyaf.’

[Menyw, Du / Du Prydeinig, 41-60 oed, Caerdydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

‘Mae'n hyfryd i oedolyn, rydych chi'n gallu cerdded o gwmpas a gwerthfawrogi'r hanes ond, os oes gennych chi blentyn pedair neu bump oed, gwnaeth fy un i gwyno'r holl ffordd o gwmpas. Cerddon ni i'r castell ond doedd dim byd yno.’

[Menyw, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 20-40 oed, Casnewydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

‘Es i yno gyda'r ysgol. Fe wnes i ei fwynhau yn fawr ond, i fod yn onest, roedd braidd yn rhy ... roedd y plant wedi diflasu. Roedd hi'n bedair oed ar y pryd. Felly roedd ceisio egluro beth roedd pobl yn ei wneud flynyddoedd yn ôl ychydig yn ormod iddi.’

[Menyw, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 41-60 oed, y Cymoedd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

‘Mae gen i ffrindiau sy'n mynd yno gyda'u teuluoedd a'u plant ... fedrai'm dychmygu ffonio fy ffrindiau i gyd a dweud 'Gadewch i ni fynd i Sain Ffagan am y dydd'. Ni fyddai hynny'n iawn! Mae gan bawb ddiddordebau gwahanol. Mae'n fwy o le i deuluoedd.’

[Dyn, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 20-40 oed, Caerdydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

Ddim yn berthnasol i'w bywydau

Defnyddiodd yr ymchwil a gynhaliwyd yn 2002 gan RCMG 6 grŵp ffocws gyda chymunedau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yng Nghaerdydd, cymoedd y De a'r Gogledd. Ystyriwyd nad oedd amgueddfeydd Amgueddfa Cymru yn diwallu eu hanghenion ac nad oedd ganddynt ddigon o berthnasedd cyfoes. Roedd pobl o leiafrifoedd ethnig yn teimlo nad oedd staff, casgliadau ac arddangosfeydd yn cynrychioli eu cymunedau a hunaniaethau diwylliannol lluosog Cymru. Bydd Creu Hanes yn mynd i'r afael â hyn ac yn sicrhau bod Sain Ffagan yn parhau i fod yn berthnasol i boblogaeth sy'n newid. Mae'n ddiddorol bod ymchwil fwy diweddar a gynhaliwyd gan Beaufort Research yn 2011 yn awgrymu nad oedd diffyg perthnasedd diwylliannol yn rhwystr sylweddol i gyfranogwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol ymweld â Sain Ffagan. Roedd y cyfranogwyr ar draws y grwpiau yn falch o'u hunaniaeth a'u cysylltiadau Cymreig ac roeddent yn teimlo cysylltiad â'r ardal yr oeddent yn byw ynddi. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr Du/Du Prydeinig at eu tras hil gymysg hefyd, a oedd yn faes o ddiddordeb. Fodd bynnag, nid oeddent o'r farn bod eu cefndiroedd yn cael eu hadlewyrchu yn Sain Ffagan. Mynegodd cymunedau mudol diweddar awydd i ddysgu mwy am Gymru a chymharu diwylliannau. Mae'r project hwn yn mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau hyn.

Anodd cyrraedd, anodd cael mynediad

Mae cyrraedd Sain Ffagan yn rhwystr i lawer o'r grwpiau anodd eu cyrraedd. Nid oedd rhai yn gwybod sut i gyrraedd yno ac nid oedd gan gyfranogwyr eraill ddefnydd o gerbyd. Roedd disgwyl y byddai'r gost o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda theulu o'r Cymoedd, er enghraifft, yn ormod ac y byddai'r daith yn cymryd gormod o amser.

Er mwyn mynd i'r afael â mater trafndiaeth, argymhellodd rhai y dylid trefnu bysiau pwrpasol neu docynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Hyd yn oed wrth gyrraedd Sain Ffagan, mae hygrychedd ffisegol a gwybyddol yn broblem i rai ymwelwyr posibl hefyd.

I'r rhai sy'n byw y tu hwnt i ddiwrnod o deithio, rhaid i gynnig yr Amgueddfa fod yn ddigon pwerus i warantu cost arhosiad dros nos, naill ai ar ei ben ei hun neu wedi'i gyfuno ag atyniadau lleol eraill. Disgwylir i'r Amgueddfa ehangu ei chynnig allgymorth i'r meysydd hyn, yn gorfforol

ac yn rhithwir.

Research, er enghraifft, fod menywod Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn llai tebygol o fynd ar ddiwrnodau allan gyda'r teulu, na bod ganddynt lawer o hobïau neu ddiddordebau y tu allan i'r cartref.

‘Rydyn ni'n byw yng Nghymru ac rydyn ni'n rhan o'r diwylliant felly mae hynny'n ei wneud yn berthnasol.’
Menyw, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, 20-40 oed, Caerdydd
(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research)

‘Mae gen i ddiddordeb ynddo ac rydw i eisïau gwybod am yr hil gymysg.’
Dyn, Du / Du Prydeinig, 41-60 oed, Caerdydd (Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research)

‘Flynyddoedd yn ôl lle rwy'n byw [y Dociau, Caerdydd], roedd pob hil y gallech chi feddwl amdani. Roedd pobl o Somalia, Jamaica, Affrica, Malta, Tsieina, India, roedd pawb mewn lle mor fawr â hyn.’
Menyw, Du / Du Prydeinig, 41-60 oed, Caerdydd (Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research)

‘Rwy'n falch o fod yn Gymro... Lle rydych chi'n byw, rydych chi'n falch ohono... Rydyn ni'n falch gan ein bod ni'n byw yma.’
Dyn, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, 41-60 oed, Casnewydd (Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research)

‘Dydy Sain Ffagan ddim y lle rhwyddaf i gyrraedd, i fod yn onest. Mae mynd ar fws yn ymdrech fawr i lawer.’
Gweithiwr Hafal (Cyfeiriad 16, Adroddiadau a Chynllun

Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6)

‘Wel, y teithio yw'r broblem, os oes gan rywun gar yna rydyn ni'n mynd i fyny yn y car ond os oes pump ohonon ni ar y trê, yna anghofiwch am y peth. Byddai'n rhaid i mi gael rhywun i fynd â ni i fyny, neu os yw'r ysgol yn mynd â nhw i fyny ar daith, byddwn i yno.’
Menyw, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 41-60 oed, y Cymoedd (Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research)

3.4.5 Gweithgareddau presennol: profiad goddefol yn bennaf

Er gwaethaf y canfyddiad o amgueddfeydd awyr agored fel profiadau amgueddfa gweithredol, wedi meddwl, mae'r rhan fwyaf o'r profiadau i ymwelwyr yn Sain Ffagan yn oddefol. Er bod sesiynau wedi'u hwyluso'n cynnig cyfleoedd da i'r defnyddiwr gymryd rhan weithredol, mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn anweledig i'r gynulleidfa ehangach oherwydd eu lleoliad.

Mae prosesau amgueddfeydd yn cael eu gwneud yn fwyfwy tryloyw i'r cyhoedd, ond nid yw'r potensial ar gyfer rhannu sgiliau ymhell o gael ei wireddu. Mae'r cynnig craidd dyddiol, gan gynnwys arddangosiadau ac arddangosfeydd, yn cynnwys gweithgareddau sy'n oddefol yn bennaf yn hytrach na phrofiadau gweithredol i'r cyhoedd. Ychydig iawn o sgaffaldwaith dysgu sydd ar gael i helpu ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn y gweithgarwch. Ychydig iawn o gyfle sydd i gyfranogwyr adael eu marc eu hunain ar yr Amgueddfa.

Yn ôl y disgwyl, mae'r gweithgareddau'n adlewyrchu anghenion ein cynulleidfaoedd craidd presennol – sef dysgu ffurfiol (cynradd yn bennaf), cynulleidfaoedd teuluol, addysg oedolion neu'r rhai sydd â diddordeb arbenigol penodol, myfyrwyr a chyfoedion academiaidd (gweler Atodiad 1). Ychydig iawn o weithgareddau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd, ac eithrio Ar Dir Cyffredin (project allgymorth Amgueddfa Cymru gyda phobl ifanc, y ddreser gymunedol yn Oriel 1 a'r projectau ar raddfa fach rydym wedi ceisio cydweithio â grwpiau BAME arnynt i guradu arddangosiadau.

Mae rhai wedi bod yn hynod lwyddiannus, er enghraifft, y project Creu Duwies gyda Phwyllgor Puja Cymru (penllanw pedair blynedd o ddeialog barhaus) a arweiniodd at roi delwau o dduwiau Hindŵaidd i'r casgliad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae grŵp rhaglennu'r Amgueddfa wedi ceisio darparu rhaglen fwy cytbwys, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau sy'n gysylltiedig â chasgliadau i'r ymwelydd. Fodd bynnag, hyd yma nid yw penderfyniadau ynghylch gweithgareddau rhaglennu wedi'u gwneud o fewn fframwaith strategaeth dehongli a dysgu gyffredinol na gyda chanlyniadau cymdeithasol penodol mewn golwg. Caiff gweithgareddau sampl eu gwerthuso, ond nid oes deialog â defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr ynghylch yr hyn rydym yn dewis ei wneud. Mae'r pwyslais ar weithdai/digwyddiadau untro a gweithgareddau galw heibio. Mae hyn yn arwain at ddiffyg cyfle i'r defnyddwyr symud ymlaen yn eu dysgu ac i'r Amgueddfa gael unrhyw effaith ddofn ar fywydau pobl. Caiff hyn ei ddisodli gan feithrin perthynas a phartneriaeth agosach a mwy cynaliadwy drwy'r project hwn.

3.5 Hyfforddiant a rhannu sgiliau

3.5.1 Sgiliau traddodiadol

Gwarchod sgiliau crefft yw un o elfennau pwysig yr Amgueddfa. Mae Sain Ffagan yn amgueddfa fyw lle mae crefftwyr traddodiadol yn dangos sgiliau traddodiadol yn y gweithdai a'r melinau sydd wedi'u hailadeiladu. Mae'r Amgueddfa'n cael ei chydabod hefyd fel canolfan ragoriaeth o ran sgiliau adeiladu traddodiadol, ac mae wedi hyfforddi cenedlaethau o grefftwyr.

Mae Amgueddfa Cymru wedi'i chofrestru fel darparwr lleoliadau ar gyfer cynllun Gwobrau Bwrsariaeth y Grŵp Hyfforddi Treftadaeth Genedlaethol ac mae wedi darparu lleoliadau ar gyfer 9 crefftwr dan hyfforddiant gyda'n Huned Adeiladau Hanesyddol. Rydym wedi gallu cynnig gwaith â thâl i rai o'r hyfforddeion hefyd yn dilyn eu lleoliadau. Mae'r Adran Ystadau wedi bod yn ymwneud â rhannu sgiliau ers blynnyddoedd lawer.



Gweinyddir y Cynllun Sgiliau Garddwriaeth Treftadaeth newydd o'r Amgueddfa, gyda 30 o hyfforddeion mewn gerddi ledled Cymru dros oes pedair blynedd y rhaglen a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Fodd bynnag, nid yw cyrsiau rhannu sgiliau wedi'u rhaglennu ar gyfer grwpiau mwy o bobl yn yr holl sgiliau crefft amrywiol yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyfleusterau diogel a phriodol ar y safle.

3.5.2 Mynediad at gasgliadau ac arbenigedd

Mae'r ddwy adran guradurol yn darparu mynediad cyson i ymchwilwyr unigol, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd at gasgliadau yn y storfa, sy'n cynnwys dogfennau, archifau ffotograffig a chlyweledol, cyfleusterau llyfrgell ac amrywiaeth eang o gasgliadau materol o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae curaduron, cadwraethwyr a staff dysgu yn rhoi sgysiau, hyfforddiant (yn enwedig hyfforddiant hanes llafar) a chyingor rheolaidd yn eu meysydd arbenigol ar y safle ac oddi ar y safle, yn ogystal â darparu lleoliadau i fyfyrwyr. Mae'r graddau y cynigir y gwasanaethau hyn yn cael ei lesteirio'n ddifrifol gan y diffyg manau priodol i ddod â chasgliadau o'r storfa i'w hastudio, i gynnal cyrsiau neu i roi sgysiau a chyflwyniadau, neu gael mynediad at y casgliadau ar-lein.



'O edrych ar y llun yna o'r gof, wel, i mi, fy nhad-cu oedd e gan ei fod e'n of, a'r holl ddynion cyn hynny ers saith cenedlaeth, ac mae'r sgil yna wedi mynd gydag e'

[Menyw, Dosbarth Gweithiol Gwyn, 20-40 oed, Casnewydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)

'Rwy'n caru'r crochenwaith, cael eich dwylo'n fudr, hyd yn oed y gwaith coed, hyd yn oed os oedd gwŷdd. Byddwn i wrth fy modd yn gwneud rhywbeth ar wŷdd.'

[Menyw, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, 20-40 oed, Caerdydd \(Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 9, Beaufort Research\)](#)



3.5.3 Sgiliau iaith

Gan fod gan Sain Ffagan statws arbennig o symbolaidd o ran ei chefnogaeth i'r Gymraeg (hi oedd un o'r sefydliadau cyntaf yng Nghymru i weithredu'n ddwyieithog), mae'n gwneud cyfraniad allweddol at y gwaith o addysgu'r Gymraeg drwy gynnal digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u targedu'n benodol at ddysgwyr a thrwy gynhyrchu deunyddiau addysgu ar y we ar gyfer tiwtoriaid. Bydd yr agwedd hon o Sain Ffagan fel 'lle diogel' i ddysgwyr iaith yn cael ei ymestyn i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith dramor.



3.5.4 Sgiliau archaeolegol

Mae gan yr Adran Archaeoleg a Nwmismateg gryfder arbennig o ran ariannu ac ymgymryd â phrosiectau gwaith maes, cloddio ac ôl-gloddio sy'n seiliedig ar ymchwil ledled Cymru. Mae'r gwaith maes hwn wedi creu cyfleoedd cyfoethog i gymunedau lleol, gwirfoddolwyr a myfyrwyr prifysgol ymgysylltu â'u gorffennol drwy gymryd rhan mewn gwaith maes, astudio ac ymchwil ar gasgliadau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r mathau o ymgysylltiadau â'r gymuned gydag archaeoleg wedi ehangu a datblygu. Er enghraifft, ers 1999 mae Cydlynnydd Cynllun Hynafiaethau Cludadwy Cymru wedi'i leoli yn yr Adran, gan arwain at fwy o ymddiriedaeth a chydweithio â'r gymuned canfod metel a gwaith allgymorth gweithredol, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd clybiau canfod metel yn rheolaidd ledled Cymru.

3.5.5 Sgiliau creadigol

Yn y gorffennol rydym wedi ceisio darparu cyfleoedd i ddefnyddwyr ymgysylltu ag artistiaid ac awduron creadigol, wedi'u hysbrydoli gan y casgliadau. Mae hyn wedi amrywio o sesiynau blasu i ddiwrnodau astudio. Mae hwyluso'r rhain dros gyfnodau hwy i alluogi cynnydd cyfranogwyr yn cael ei lesteirio gan ddiffyg lle a chyfleusterau priodol.

3.5.6 Lle rydym yn ddiffygiol

Er bod gennym ni hanes da mewn amryw o feysydd sy'n ymwneud â hyfforddiant a rhannu sgiliau, nid yw'r Amgueddfa'n cyrraedd ei photensial yn y maes hwn o hyd, am y rhesymau canlynol:

- mae'r gweithgareddau a'r cyfleoedd yn cael eu sbarduno gan anghenion yr amgueddfa gan amlaf yn hytrach nag anghenion y gymuned
- mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar brosiectau maes, ac sy'n ad hoc weithiau, o ran cynnwys y gymuned yn tueddu i fod yn hunan-ddetholus yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol, ac nid yw'n targedu at grwpiau cymdeithasol, economaidd ac ethnig penodol
- nifer cyfyngedig iawn sydd wedi'u hyfforddi oherwydd diffyg cyfleusterau.



3.6 Gwirfoddoli: cyfleoedd project

Gellir gwirfoddoli mewn amgueddfeydd mewn sawl ffordd. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr. Am eu hymdrechion, cânt eu gwobrwyo gyda'r cyfle i ddatblygu cyfeiriad strategol yr Amgueddfa.

Mae gwirfoddoli ar lefelau eraill, a'r manteision, wedi'u diffinio'n llai clir a, than yn ddiweddar, nid oedd hyn yn cael ei wneud yn strategol.

Yn 2008, sefydlodd Amgueddfa Cymru ei hymrwymiad i wirfoddoli drwy greu rhaglen wirfoddoli newydd a swydd Cydlynnydd Gwirfoddoli corfforaethol newydd.

Ers hynny, mae Amgueddfa Cymru wedi gweithredu cynllun gwirfoddoli'n seiliedig ar hysbysebu rolau penodol a awgrymir gan adrannau. Er ei bod yn hybu cyfle ac yn rhoi strwythur, mae'r strategaeth yn dal i fod yn seiliedig ar anghenion yr Amgueddfa ac yn tueddu i fanteisio ar ddemograffeg benodol. Mae'r gwirfoddolwyr yn rhai dosbarth canol gwyn yn bennaf, wedi'u haddysgu i lefel uchel.

Ar yr un pryd, mae ein gwaith ymgysylltu, cyd-guradu a chyfranogiad yn y gymuned yn blaenoriaethu cynulleidfaoedd anoddach eu cyrraedd a phobl y tu allan i hyfforddiant, addysg a gwaith ac sy'n bobl o leiafrifoedd diwylliannol neu ethnig yn aml. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi bod yn rhagorol ac yn cael ei gydnabod yn eang ymhlith y cryfaf yn y sector. Ac eto, mae'n dal heb gael effaith ar ddimensiwn gwirfoddoli a hyfforddi ein gwaith yn ei gyfanrwydd. Mae tuedd i weithio mewn meysydd cyfarwydd gyda phartneriaid cyfarwydd, yn hytrach na cheisio synergeddau ar draws partneriaethau i ddarparu ffyrdd newydd o weithio.

3.6.1 Rhwystrau i wirfoddoli yn Sain Ffagan

Mae themâu cyffredin yn deillio o'n trafodaethau gyda sefydliadau gwirfoddol ynghylch gwirfoddoli yn yr Amgueddfa:

- diffyg ymwybyddiaeth o'r Amgueddfa fel darparwr cyfleoedd gwirfoddoli
- diffyg eglurder am yr hyn a gynigir

- rhwystrau ffisegol, yn enwedig oherwydd anawsterau trafnidiaeth
- rhwystrau deallusol i gael mynediad a chyfrannu
- anghenion hyfforddi staff, yn enwedig ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion agored i niwed
- angen cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Amgueddfa a'r sector gwirfoddol ar weithdrefnau sefydliadol
- cydnabod heterogenedd y sector gwirfoddol wrth sefydlu gwaith cydweithredol.

‘Tan heddiw, doeddwn i ddim yn gwybod bod gwirfoddolwyr yn cael mynd drwy'r drws.’

‘Mae gwybod sut i gyrraedd yma a sut i fynd yn ôl yn anodd.’

‘Mae angen i chi fod yn fwy rhagnodol, fel asiantaeth recriwtio.’

‘Mae'r berthynas â phartneriaid mor werthfawr. Dydy un broses ddim yn addas i bawb.’

‘Eich problem fydd ymateb i'r holl geisiadau!’

Aelodau'r Fforwm Cyfranogiad Gwirfoddoli
(Cyfeiriad 45, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6)



4 Penderfyniadau strategol ynghylch cynnwys pobl

Bydd yr Amgueddfa Hanes Genedlaethol newydd ar gyfer Cymru yn adeiladu ar ei thraddodiad o fod yn amgueddfa'r bobl, gan feithrin partneriaethau â chymunedau a sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt, i ymestyn y profiad o'r casgliadau a'r safle i ymwelwyr.

4.1 Adnodd ysbrydoledig ar gyfer creu hanes gyda'n gilydd

Ein nod yw bod yn ganolfan ragoriaeth ryngwladol sy'n ysbrydoli pobl i ddysgu am hanes Cymru a'i archwilio. Dylai holl bobl Cymru deimlo eu bod yn rhan o'r stori rydym yn ei chyflwyno, yn hytrach nag ymweld â'r stori yn unig. Dylai'r wybodaeth a'r sgiliau sydd gennym fel sefydliad fod yn adnodd i bawb ei rannu.

4.1.1 Lleoliad unigryw ar gyfer dysgu

Bydd Sain Ffagan yn cyfuno profiadau dysgu diwylliannol safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau celf ac archifau ar un safle. Mae arnom angen fframwaith cydlynol i gyfuno'r holl brofiadau hyn mewn ffordd sy'n glir ac yn ddealladwy i'n hymwelwyr. Mae dysgu drwy dreftadaeth ddiwylliannol yr un mor bwysig â threftadaeth ddiwylliannol i ni (gweler Atodiad 1: Strategaeth Dysgu a Dehongli).

Bydd amgylcheddau'r Amgueddfa, sy'n cynnig mannau dysgu dan do ac awyr agored, yn cynnig cyfleoedd i gefnogi a darparu ar gyfer pob arddull ddysgu. Mae'n amgylchedd dysgu gwahanol iawn i ddysgu ffurfiol traddodiadol, ac mae'n cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio a phrofi'r amrediad llawn o ddeallusrwydd, gan eu gwneud yn ddysgwyr mwy effeithiol. Byddwn yn manteisio ar botensial yr amgylcheddau hyn i ddarparu cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol i'r rhai sydd wedi ymddieithrio o ddysgu ffurfiol.

Ein nod yw trawsnewid ymgysylltiad y cyhoedd â hanes Cymru. Gan gydweithio â sefydliadau addysg uwch, byddwn yn defnyddio eu hymchwil yn ein harddangosfeydd a'n harddangosiadau i ddangos y cysylltiad rhwng y gorffennol a materion bywyd cyfoes yng Nghymru. Mae dealltwriaeth o'r gorffennol yn hanfodol os ydym, fel unigolion a chymunedau, am ddatblygu ymwybyddiaeth o'n hunaniaeth ein hunain, i gyfranogi fel dinasyddion mewn cymdeithas gyfoes ac i

wneud penderfyniadau gwybodus am y dyfodol.

4.1.2 Oriolau newydd yn archwilio tystiolaeth hanesyddol mewn gwahanol ffyrdd

Bydd adnewyddu'r orielau arddangos presennol yn ein galluogi i ailddiffinio disgwyliadau pobl o amgueddfa hanes genedlaethol, gan alluogi ymwelwyr i brofi gwahanol ffyrdd o ddehongli tystiolaeth hanesyddol (gweler adroddiad Cam D Dylunio Dehongli ac Arddangosfeydd am fanylion).

Creu Cymru - Making Wales

Dull deongliadol arddangosfa **Creu Cymru** yw ysgogi meddwl a thrafodaeth am:

- ein dynoliaeth a'n hymdeimlad o le
- sut mae hanes yn cael ei greu, a gwahanol ystyron yn cael eu rhoi i'r un gorffennol
- sut mae ymdeimlad o hunaniaeth yn datblygu ac yn newid dros amser
- sut mae'r dystiolaeth rydym yn seilio'r ystyron hynny arni yn newid dros amser
- sut mae lleisiau rhai pobl yn dod yn rhan o'r stori genedlaethol, ac eraill yn aros yn ddistaw.

Bydd cwestiynu a thrafod yn rhan o wead yr arddangosfa, gan annog ymwelwyr i ddod i edrych ar y gorffennol o wahanol safbwyntiau, dod i'w casgliadau eu hunain a chofnodi eu barn fel y gall eraill ymateb iddi. Bydd rhaglen dreigl o arddangosiadau wedi'u cyd-guradu gyda chynulleidfaoedd targed yn archwilio perthnasedd cyfoes myfyrio ar y gorffennol, gan sicrhau bod mwy a mwy o bobl Cymru yn dod yn rhan o'r stori, bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod ein casgliadau'n cael eu cyfoethogi a'u hamrywio. Bydd pawb sy'n ymweld â'r oriel yn gallu ychwanegu at gyfalaf diwylliannol cenedlaethau'r dyfodol drwy ymateb i'n gwaith casglu a dylanwadu arno.

Byw a Bod – Ways of Life

Lle mae Creu Cymru yn oriel o drafod, mae Byw a Bod yn oriel sy'n caniatáu i ymwelwyr archwilio eu chwilfrydedd naturiol am bobl eraill.

Bydd casgliadau hanes cymdeithasol ac archaeolegol Amgueddfa Cymru yn cael eu harddangos ochr yn ochr i roi cipolwg ar fanylion cyffredin bywydau ddoe a heddiw, gan godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau cymdeithasol a materion cyfoes ar adegau. Bydd gweithgareddau'n caniatáu i ymwelwyr archwilio bywyd yn y gorffennol drwy bŵer datblygiadol chwarae, tra bydd hanes llafar ac archifau gweledol helaeth yr Amgueddfa'n darparu cysylltiad uniongyrchol â bywydau pobl eraill. Mae'r oriel hon a'r themâu a gyflwynir yn cysylltu'n uniongyrchol â'r adeiladau hanesyddol ac adeiladwaith archaeolegol ar y safle.

Creu Hanes â Llaw – Making History by Hand

Pan fydd pobl yn sôn am 'greu hanes', maent yn cyfeirio at bobl bwysig a digwyddiadau arwyddocaol fel arfer. Fodd bynnag, gwnaed y rhan fwyaf o'r dystiolaeth o hanes sy'n goroesi gan ddwylo rhywun. Bydd adeilad cynaliadwy newydd, gyda'r enw dros dro **Gweithdy**, yn dathlu sgiliau gwneuthurwyr sydd wedi gweithio gyda'r adnoddau naturiol o'u cwmpas, ac yn annog ymwelwyr i ddysgu'r sgiliau hyn eu hunain. Bydd yn rhoi cipolwg hefyd o'r projectau archaeoleg arbrol ac adeiladu hanesyddol sydd ar waith yn yr Amgueddfa ar hyn o bryd. Bydd yn lle ymarferol a fydd yn gofyn am ddefnyddio'r ymennydd sy'n dathlu creadigrwydd ein defnyddwyr, gan eu galluogi i gael ysbrydoliaeth o gynhyrchion crefftwyr ddoe a heddiw a'u defnyddio i wneud arteffactau sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u profiad eu hunain. Bydd Gweithdy'n annog ymwelwyr i ddyfeisio, dylunio, arbrol ac adeiladu.

Bod â llais

Bydd Sain Ffagan yn amgueddfa lle mae gan bawb sydd â chysylltiad â Chymru neu sy'n dymuno dysgu mwy amdani le a llais, a lle gallant wneud gwahaniaeth. Bydd yr arddangosfeydd newydd yn cynnwys rhaglen barhaus o arddangosiadau wedi'u cyd-guradu â chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr Amgueddfa ar hyn o bryd. Y nod yw llenwi bylchau yn ein gwaith casglu a dod â mwy o bobl i mewn i gymuned yr Amgueddfa.

Yn hytrach na dehongli popeth drwy lais anhysbys awdurdod curadurol, hoffem gyflwyno safbwyntiau lluosog o'r gorffennol a'i dystiolaeth faterol. Bydd dylunwyr yr arddangosfa'n gweithio gyda staff i ddatblygu ffyrdd o bersonoli llais yr Amgueddfa ei hun, gan gynnwys gwahanol safbwyntiau a naratifau o'r gorffennol, a'i gwneud hi'n glir pwy sy'n annerch yr ymwelydd. Bydd yr ymwelydd yn gallu gadael cofnod o'i lais ei hun i'w ychwanegu at naratif sy'n newid o hyd.

Cynsail allweddol yn ein strategaeth ddehongli yw'r defnydd cynyddol o'n harchif unigryw o dystiolaeth lafar. Am gyfnod rhy faith o lawer, bu tuedd i ail-bwysleisio uchafiaeth yr arteffact ac ystyried hanes llafar yn rhywbeth 'braf ei gael os oes amser'. Mae hanes llafar yn mynd i'r afael â'r agenda cynhwysiant cymdeithasol presennol drwy wella mynediad, herio stereoteipiau, dathlu gwahaniaeth a chynrychioli lleisiau coll neu ymylol. Ond mae'n mynd i'r afael â phroses hanes, cymaint â chynnyrch hanes hefyd.

Bydd yr Amgueddfa'n fan cyhoeddus ar gyfer meddwl beirniadol a thrafodaeth. Bydd yr arddangosfeydd newydd yn mynd i'r afael â materion dadleuol ac yn archwilio cyfng-gyngor moesegol, gan herio ymwelwyr i feddwl am wahaniaeth, gwrthdaro ac effaith newid ar ein bywydau. Erbyn hyn, nid yw'n ddigon adrodd straeon cyfleus mae pobl am eu clywed. Byddwn yn rhannu ac yn adrodd straeon niferus a profiadau niferus. Nid yw hyrwyddo naratifau syml nad ydynt yn ddadleuol am dreftadaeth gyffredin yn ddichonadwy mwyach.

4.1.3 Archaeoleg arbrofol

Mae datblygu archaeoleg arbrofol neu awyr agored yn Sain Ffagan yn cynrychioli gwyriad sylweddol a deinamig o'r modd traddodiadol y mae Amgueddfa Cymru wedi dehongli Cymru gynnar i'r genedl. Mae'n ddatblygiad arloesol, nad oes unrhyw amgueddfa genedlaethol arall ym Mhrydain wedi manteisio arno.

Mae statws Sain Ffagan fel Amgueddfa Werin Cymru yn rhoi cyfle i fynd ymhellach nag sy'n bosibl mewn safleoedd archaeoleg arbrofol llai o faint. Mae ein cylch gwaith daearyddol a chronolegol eang yn ein galluogi i gymharu a gwrthgyferbynnu'r gwahanol ffyrdd yr oedd bywyd yn cael ei fyw ym mhob rhan o wlad gyfan ar draws pob cyfnod. At hynny, mae symud y casgliadau archaeoleg i'r safle'n golygu y bydd y cyhoedd yn gallu gweld, yn yr un ymweliad, y gwrthrychau sy'n darparu llawer o sail ein dealltwriaeth o'r gorffennol – rhywbeth nad yw'n bosibl ar unrhyw raddfa

mewn lleoliadau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Mae'n amlwg bod y potensial ar gyfer rhyngweithio'n ymarferol a gynigir gan Archaeoleg Arbrofol yn cynnig cyfle i ymwelwyr archwilio sut y gallai bywyd fod wedi cael ei fyw yn y gorffennol, gan arwain at ymweliadau mwy ymdrochol a chyfoethog o ran dysgu. Mae gan yr un rhyngweithio y potensial hefyd i gynyddu amrywiaeth y defnyddwyr a all elwa ar ddarpariaeth archaeolegol yr Amgueddfa. Mae'r amgylchedd awyr agored yn addas iawn ar gyfer arddulliau dysgu anffurfiol, tra bod y cyfle i weld pethau'n digwydd a 'rhoi cynnig arni', lle y bo'n briodol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gweithredol i'r rhai sy'n anghyfforddus gyda dulliau dysgu testun ac mewn oriel.

O fewn oes y project, bydd 3 phrosiect archaeoleg arbrofol mawr yn Sain Ffagan, pob un yn darparu ffyrdd gwahanol i ddefnyddwyr gymryd rhan (am fanylion, gweler y Cynllun Gweithredu):

- adeiladu llys tywysogion Gwynedd ganoloesol yn seiliedig ar dystiolaeth yn Llys Rhosyr, Ynys Môn
- adeiladu anheddiad Oes Haearn o dystiolaeth archaeolegol o safle ym Mryn Eryr yn y Gogledd
- arbrofi gyda chreu crug o'r Oes Efydd a'i gynnwys – nodwedd archaeolegol sy'n hollbresennol yn nhirwedd Cymru.



Mynediad uniongyrchol at gasgliadau a gwybodaeth

Bydd y Ganolfan Mynediad at Gasgliadau newydd yn galluogi ymwelwyr i gael mynediad uniongyrchol at y cyfoeth o gasgliadau archifol a materol a gedwir yn yr Amgueddfa ar gyfer astudio ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys y casgliadau unigryw o dystiolaeth lafar, archif ffotograffig enfawr a chasgliadau materol megis gwisgoedd a thecstilau sy'n anaddas i'w harddangos yn barhaol.

Bydd agor yr Amgueddfa newydd yn gyfraniad pwysig at greu cenedl fodern, un sy'n hyderus, yn greadigol ac yn gallu adlewyrchu'n feirniadol ac yn gyhoeddus ar ei gorffennol. Am y tro cyntaf, bydd gan Gymru amgueddfa sy'n cyflwyno'r gorffennol drwy hanes cyflawn, gan gynnwys pob disgyblaeth hanesyddol, gwahanol anghenion dysgu a phob person mewn cymdeithas.

4.2 Dod yn amgueddfa genedlaethol gyfranogol


Ein nod sylfaenol yw dod yn amgueddfa genedlaethol wirioneddol gyfranogol - amgueddfa groesawgar a chynhwysol lle gall pawb rannu gwybodaeth, casgliadau a sgiliau. Rydym wedi sylweddoli bod angen i ni drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio gyda phobl Cymru, a newid ethos ein rhyngweithio â'n cynulleidfaoedd.

Mae'n anochel bod hyn yn dod gyda risg ac ymdeimlad o golli rheolaeth. Rhaid i ni ymddiried yn ein defnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r enillion posibl o ran ymgysylltu ac ymdeimlad o berchnogaeth yn aruthrol.

Mae dod yn sefydliad cyfranogol yn her i unrhyw amgueddfa, heb sôn am amgueddfa sy'n gweithredu ar lwyfan cenedlaethol. Yn draddodiadol, mae amgueddfeydd cenedlaethol yn sefydliadau ceidwadol, sy'n araf i newid. Yr allwedd yw ein bod yn meddwl yn y tymor hir.

4.2.1 Dyfnhau ymgysylltiad â threftadaeth ddiwylliannol: y Ganolfan Ddysgu

Yr allwedd i greu amgueddfa sy'n canoli anghenion defnyddwyr yw Canolfan Ddysgu i ddarparu profiadau dysgu gweithredol a chyfalaf diwylliannol i bobl o bob oed a chefnidir. Bydd y gofod yn darparu lleoliad ffisegol i ymwelwyr ddysgu drwy wneud a dyfnhau eu mwynhad, eu dealltwriaeth a'u hastudiaeth o gasgliadau'r Amgueddfa.



Bydd y gweithgareddau yn y Ganolfan yn adlewyrchu ac yn sbarduno nod yr Amgueddfa i fod yn amgueddfa gyfranogol gyda deialog agored a chydweithio rhwng defnyddwyr a'r Amgueddfa, a rhwng defnyddwyr a'i gilydd. Er enghraifft, byddwn yn ymgorffori rhaglenni ar gyfer tywyswyr/llysgenhadon ifanc, gwirfoddolwyr, cyd-gynyrchiadau a gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn ein cylch gwaith craidd ac yn cynnig dilyniant dysgu i'n defnyddwyr.

Bydd y Ganolfan Ddysgu'n groesawgar ac yn hygyrch i'n holl ddefnyddwyr ac ymwelwyr amrywiol ac yn darparu ar gyfer pob angen – yn gorfforol, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Bydd y cynnig dysgu'n cael ei wneud yn dryloyw i bob ymwelydd i gydnabod y canolrwydd a'r pwysigrwydd a roddir ar ddysgu. Bydd pob ymwelydd yn gallu mwynhau cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.

Bydd y mannau pwrpasol allweddol yn y Ganolfan Ddysgu yn cynnwys:

- **Ile creadigol** ar gyfer archwilio casgliadau, er enghraifft, clybiau plant bach gyda phlant cyn oed ysgol a gweithdai celf neu ddylunio gyda phobl ifanc. Bydd yr ystafell hon yn agor i'r awyr agored er mwyn caniatáu i weithgareddau gael eu cynnal y tu allan.
- **Ile rhannu sgiliau** ar gyfer trafod a gweithio gydag

eraill, er enghraifft, seminarau a chysiau hyfforddi ar gipio a recordio tystiolaeth lafar, trafod gwrthrychau a sgiliau sylfaenol trosglwyddadwy.

- **Awditoriwm**, gyda seddau cyfforddus i 120 o bobl, ar gyfer rhaglenni addysgu, sgysiau, darlithoedd, trafodaethau, perfformiadau a dangosiadau ffilm, yn ogystal â chynadleddau proffesiynol a llogi corfforaethol.
- **ardal amlbwrpas** i ysgolion fwyta eu cinio yn ystod y tymor, ar gyfer partion pen-blwydd a gweithgareddau teuluol yn ystod penwythnosau a gwyliau ac fel bar ar gyfer digwyddiadau gyda'r nos.
- **ystafell wisgoedd**, sy'n storio 200 o wisgoedd a gwrthrychau replica o ansawdd uchel, ar gyfer ysgolion, cymdeithasau ailberfformio a gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn dehongli mewn gwisgoedd.
- **derbynfa** fawr, anffurfiol lle bydd staff yn croesawu ymwelwyr i'r Ganolfan ac yn eu cynghori.

4.2.2 Datblygu sgiliau a thalent crefft: Gweithdy

Mae **Gweithdy**, yr adeilad newydd arfaethedig ar gyfer pen gorllewinol y safle, yn allweddol i gyflawni potensial yr Amgueddfa i barhau â'r traddodiad o drosglwyddo sgiliau o un genhedlaeth i'r llall drwy esiampl a phrentisiaeth. Yma, bydd ymwelwyr yn gallu darganfod **sgiliau pobl o'r gorffennol** drwy edrych ar yr hyn a wnaed ganddynt a dysgu sut y gwnaethon nhw wneud y pethau hynny, gan ddefnyddio'r adnoddau o'u cwmpas yn yr amgylchedd.

Bydd yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen o weithgareddau galw heibio i sesiynau blasu, cyrsiau undydd a hyfforddiant a phrentisiaethau achrededig.

Bydd ymwelwyr yn darganfod y wefr o drafod arteffactau a dysgu i fod yn greadigol wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i wneud rhywbeth drostynt eu hunain. Cynhyrchion sgiliau o'r fath yw craidd ein casgliadau, ond nid ydynt ar gael yn gyffredinol mewn ffordd sy'n ysbrydoli creadigrwydd ymarferol ein hymwelwyr.

Treftadaeth anniriaethol

Mae llawer wedi meddwl - yn gwbl anghywir - fod angen llai o ddeallusrwydd i weithio'n fedrus ac yn greadigol gyda'n cyrff, ac yn enwedig ein dwylo, a'i fod yn llai gwerthfawr na gweithgareddau eraill. Ond y gwrthwyneb sy'n wir yn ein barn ni: bod sgiliau o'r fath yn bwysicach nag erioed i'n cymdeithas, ac yn enwedig pobl ifanc; bod deallusrwydd ymarferol yn ein rhyddhau ni, a dylid ei werthfawrogi fel ffordd wahanol o feddwl a theimlo sy'n economaidd arwyddocaol, yn hyrwyddo lles ac yn haeddu parch. Mae'r sgiliau hyn yn rhan bwysig o'n treftadaeth anniriaethol. Bydd gan Amgueddfa Hanes Genedlaethol newydd yr holl adnoddau i ysbrydoli gallu o'r fath.

Bydd yr Amgueddfa'n canfod ac yn datblygu doniau, gan feithrin galluoedd na fyddent yn cael eu cydnabod fel arall o reidrwydd. Bydd yn lle i feithrin yr economi greadigol, ac yn cefnogi twf Cymru fel cymdeithas greadigol. Bydd yn annog pobl i ddod yn fwy ymwybodol o werth sgiliau ymarferol, yn eu holl ffurfiau, ac i gymhwyso dylunio a gwneud i'w bywydau bob dydd.

Mae'r gweithgareddau rhannu sgiliau'n caniatáu mynediad at ein treftadaeth anniriaethol o sgiliau crefft. Nid yw hyn yn cael ei weld fel unedau unigol o arddangosiadau, sesiynau blasu, cyrsiau dydd neu wythnos hyd at hyfforddeiaethau neu brentisiaethau llawn amser. Mae'n rhan o gontinwm cyfannol, ecosystem y gymuned o weithredwyr a defnyddwyr sy'n cymryd rhan mewn treftadaeth fyw, anniriaethol sydd wedi'i gwreiddio yng nghymuned ehangach Cymru. Bydd yr Amgueddfa'n mynd ati i hyrwyddo a chynorthwyo mynediad at hyn ar gyfer defnyddwyr a chyfranogwyr, gan ennyn diddordeb yn gyffredinol ac yn benodol, yn helpu i gynnal y dreftadaeth fyw. Bydd yn ysbrydoli pobl i wneud hyn yn ddechrau taith a fydd yn parhau gydol oes.

Byddwn yn cyflawni'r potensial ar gyfer rhannu sgiliau drwy:

- ddarparu cyfleusterau a mannau sy'n galluogi ymwelwyr i ymgysylltu â'r sgiliau a greodd yr arteffactau yn ein casgliadau ac archwilio eu creadigrwydd eu hunain
- adlinio ein hadnoddau i weithio'n ddwys gyda chymunedau lle gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol – yn enwedig yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar ein stepen drws

- gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu mwy o brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Bydd yr Amgueddfa'n ymestyn allan at bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o'u treftadaeth. Drwy brentisiaethau, lleoliadau gwaith a rhaglenni gwirfoddoli, byddant yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd ac i fagu hyder, cyflogadwyedd a photensial economaidd.

4.2.3 Canolfan ragoriaeth genedlaethol mewn gwirfoddoli

Mewn cydweithrediad â'r sector treftadaeth yng Nghymru, uchelgais Sain Ffagan yw dod yn ganolfan ragoriaeth genedlaethol mewn gwirfoddoli.

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau partner i greu a chynnal cymuned o wirfoddolwyr ar gyfer Sain Ffagan lle rhoddir statws a gwerth cyfartal i gyfraniadau'r holl gyfranogwyr. Ein nod yw darparu:

I'r rhai sy'n gwirfoddoli:

- Fforymau sy'n caniatáu iddynt ddylanwadu ar gyfeiriad a chynnwys yr Amgueddfa
- Ymdeimlad o berchnogaeth, cydnabyddiaeth a balchder mewn cyflawniad
- Profiadau sy'n diwallu eu hanghenion a'u cymhellion unigol
- Sgiliau, hyder a phrofiad gwell i chwilio am gyfleoedd bywyd newydd, gan gynnwys addysg bellach, cyflogaeth, credydau/bancio amser
- Cyfleoedd ar gyfer cynnydd ar draws profiadau gwirfoddoli
- Rhyngweithio rhwng y gwahanol blatfformau ar gyfer gwirfoddoli, rhai presennol a rhai newydd.

Ar gyfer ein partneriaid cymunedol:

- Ffyrdd o ddefnyddio'r adnoddau yn yr Amgueddfa i gyflawni nodau ac amcanion amrywiol eu sefydliadau e.e. annog pobl i ddychwelyd i gyflogaeth
- Cyfleoedd i ddylanwadu ar Strategaeth Wirfoddoli Sain Ffagan o'r cychwyn cyntaf a'i llywio wrth iddi esblygu'n arferion gwaith
- Cymorth ariannol ar gyfer neilltuo amser ac ymdrech i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gyda'r Amgueddfa
- Deialog ar draws y sector gwirfoddol yng Nghymru, gan ddarparu cyfleoedd i fyfrio ar arferion gorau a'u rhannu

- Cydnabyddiaeth a chyhoeddusrwydd i waith eu sefydliadau.

I'r Amgueddfa:

- Mwy o amrywiaeth yn natur y bobl sy'n ymwneud â'r Amgueddfa, gan arwain at ddealltwriaeth ehangach o'u hanghenion a'u diddordebau
- Cyfleoedd i weithio dros gyfnodau hwy gydag ymwelwyr anhraddodiadol e.e. NEET (pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant), grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a phobl o ardaloedd C2DE
- Mynediad at yr arbenigedd yn y gymuned wirfoddoli ledled Cymru, gan greu sylfaen fewnol well o wybodaeth a sgiliau
- Hyfforddi a meithrin gallu staff i weithio gyda gwirfoddolwyr o bob cefndir sydd ag amrywiaeth eang o anghenion
- Ffordd o wneud cyfraniad cadarnhaol ac adeiladol at ddemocratiaeth ddiwylliannol a chyflawni ein cyfrifoldebau fel sefydliad cenedlaethol a ariennir gan y cyhoedd
- Strwythur ar gyfer myfrio ar arferion a dulliau gwaith gyda'n cyfoedion yn sector gwirfoddol Cymru ac ar gyfer gweithredu'n strategol ar lefel genedlaethol, gan ddiwallu anghenion cymunedau wedi'u targedu ar yr un pryd.

Yr allwedd unwaith eto yw ein bod yn meddwl am y tymor hir. Mae ymgorffori gwirfoddoli yn y diwylliant sefydliadol yn Sain Ffagan yn allweddol i lwyddiant a chynaliadwyedd hirdymor y Strategaeth Wirfoddoli (Gweler Atodiad 3).

4.2.4 Galluogi plant a phobl ifanc drwy dreftadaeth ddiwylliannol

Ein nod yw defnyddio treftadaeth ddiwylliannol i alluogi plant a phobl ifanc – yn enwedig y rhai mewn tldi ac sy'n wynebu risg – i ddarganfod doniau newydd, codi eu dyheadau a datblygu sgiliau bywyd.

Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb cymdeithasol i ddarparu profiadau galluogi gyda chanlyniad cymdeithasol buddiol. Mae angen i ni ymestyn a datblygu ein cysylltiad â chymdeithas sifil yn sylweddol. Ein nod yw ehangu mynediad a chynyddu cyfranogiad drwy:

- Gyflwyno cyfranogwyr a chynulleidfaoedd newydd i'r casgliadau, yr adnoddau a'r cyfleoedd dysgu sydd ar

gael yn yr Amgueddfa ac ar-lein. Ein nod yw ailgyfeirio adnoddau'r Amgueddfa i gefnogi'r rhai sydd eu hangen fwyaf

- Gweithio ochr yn ochr â defnyddwyr presennol, cynulleidfaoedd newydd a phartneriaid strategol, a dysgu ganddynt, i sicrhau bod ein rhaglenni a'n hadnoddau dysgu yn diwallu eu hanghenion.

Mae gennym gyfrifoldeb i weithio'n ddiwyd i ddileu anghydraddoldeb o ran cyfranogiad a chyfleoedd. Mae ymchwil ddiweddar yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Gymru lefelau uwch o ddiweithdra a thlodi plant na chyfartaledd y DU. Yng Nghymru, mae un o bob tri phlentyn yn byw mewn tldi, sef y gyfradd uchaf yn y DU.¹³ Mae gan fwy na hanner yr awdurdodau lleol gyfradd tldi plant ddifrifol o 15% neu uwch. Mae'r rhain yn cynnwys Merthyr Tudful, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Casnewydd, Abertawe, Blaenau Gwent – yn wir, y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol o fewn dalgylch 50 milltir Sain Ffagan. Mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed yng Nghymru dros 20% ar hyn o bryd, sydd eto'n uwch na chyfartaledd y DU.¹⁴

Mae un o bob pump o'r boblogaeth yng Nghymru yn anabl, ac maent ddwywaith mor debygol â phobl nad ydynt yn anabl i fyw ar aelwydydd incwm isel. Pan yn 16 oed, mae pobl ifanc anabl ddwywaith mor debygol o beidio â bod mewn unrhyw fath o addysg, cyflogaeth na hyfforddiant â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.¹⁵

Gyda'r ystadegau difrifol hyn mewn golwg, byddwn yn gweithio'n ddwys gyda phlant a phobl ifanc i helpu i dorri'r gadwyn hon o dangyflawni.



¹³ Strategaeth Tldi Plant Cymru Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011, dogfen wybodaeth rhif 095/2011

¹⁴ Ffynhonnell: Y Sefydliad Polisi Newydd, Chwefror 2011

¹⁵ Disability Poverty in Wales (2011), Leonard Cheshire Disability <http://www.lcdisability.org>

4.2.5 Ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth drwy gyd-guradu a chydweithio

Mae'r dull cyfranogol yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â chynnwys arddangosiadau ac arddangosfeydd. Byddwn yn agored gyda'r ymwelydd ynghylch sut rydym yn defnyddio casgliadau a darganfyddiadau newydd i wneud synnwyr o'r gorffennol, ac yn cynnwys y cyhoedd yn y broses hon i'w galluogi i ddarganfod eu hanesion eu hunain a'u hystyron eu hunain. Mae cyd-guradu wedi'i ymgorffori yn y cynlluniau ar gyfer pob un o'r arddangosiadau oriel newydd, gyda rhaglen dreigl flynyddol o arddangosiadau sy'n newid. Bydd y cyd-guradu yn oriel Creu Cymru yn uno dwy gymuned gyferbyniol i archwilio safbwyntiau cyfoes am ddigwyddiadau yn hanes Cymru. Bydd yr arddangosfa Byw a Bod yn rhoi llwyfan i gymunedau heb gynrychiolaeth ac sydd ar y cyrion yn aml i adrodd eu straeon. Er enghraifft, yr arddangosiad cyntaf yn yr oriel honno fydd 'Tŷ Ffoadur' mewn cydweithrediad â'r Cyngor Ffoaduriaid ac Oasis Caerdydd. Yn Gweithdy, bydd ein rhaglen artist preswyl flynyddol yn gweithio gyda phobl ifanc i ymateb yn greadigol i'n casgliadau.

Bydd hyn yn rhan o strategaeth dreigl i droi cyd-grewyr a chydweithredwyr yn gyfranwyr hirdymor a fydd yn dod yn rhan o gymuned yr Amgueddfa yn y pen draw.

4.2.6 Bod yn wirioneddol genedlaethol wrth wasanaethu Cymru gyfan

Ein nod yw cyflawni ein cylch gwaith yn well fel amgueddfa genedlaethol sy'n gwasanaethu Cymru gyfan (gweler ein Strategaeth Farchnata). Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Raglen allgymorth a mewngymorth a fydd yn mynd ati'n strategol i gynnwys ysgolion a chymunedau ledled Cymru yn ein gweithgareddau, ein gwaith casglu, ein gwaith maes a'n harddangosfeydd
- Ymgysylltu â'n defnyddwyr ar-lein, drwy wella mynediad rhithwir at ein casgliadau, ein sgiliau a'n gweithgareddau drwy ddefnyddio cyfryngau newydd yn briodol, wedi'i sbarduno gan anghenion defnyddwyr

- datblygu cyfleusterau preswyl fel rhan o'n cynnig archaeoleg arbrofol newydd.

4.2.7 Galluogi pobl o bedwar ban byd i gymryd rhan yn rhaglenni'r Amgueddfa a chyfrannu

Bydd ein Strategaeth Ddigidol (Atodiad 2) yn galluogi defnyddwyr, ble bynnag y maent, i gymryd rhan yng ngwaith yr Amgueddfa a mynegi eu barn a chyfrannu. Ein nod yw creu cylch rhinweddol o ymgysylltiad dyfnach, gan gysylltu ymweliadau ar y we, ymweliadau gwirioneddol, rhaglenni allgymorth ac ymchwil.

4.3 Sefydliad cynaliadwy

Ein nod yw bod yn amgueddfa a fydd yn gynaliadwy ac yn parhau i esblygu i ddiwallu anghenion cymdeithas.

4.3.1 Datblygu a hyfforddi staff

Mae'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu (Atodiad 4) yn darparu fframwaith i alluogi staff a gwirfoddolwyr i reoli'r newidiadau sylweddol a ddaw yn sgil Creu Hanes yn llwyddiannus. Mae'r cynllun yn amlinellu cyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd yn ystod cyfnod y project a thu hwnt. Mae Sain Ffagan wedi profi ei hymrwymiad i ddarparu a chefnogi cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr o ganlyniad i weithio tuag at gyrraedd y safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae Buddsoddwyr mewn Pobl yn safon rheoli pobl hyblyg sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n helpu sefydliadau i gyflawni eu hamcanion drwy ddatblygu a meithrin sgiliau eu pobl. Disgwylir i Sain Ffagan gyrraedd y safon Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Mawrth 2012. Dros y degawd nesaf, mae ymrwymiad parhaus i hyfforddiant yn hanfodol nid yn unig i sicrhau llwyddiant Creu Hanes ond hefyd i symud tuag at y wobr Buddsoddwyr mewn Pobl Aur.

Bydd darparu cyfleoedd cysgodi a rhannu sgiliau yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod rhannu sgiliau yn sbardun i'n ffordd o weithio. Wrth i'r project ddatblygu, byddwn yn sicrhau y bydd yr amodau diwylliannol cywir ar gyfer rheoli gwybodaeth yn cael eu creu, gan gynnwys arweinyddiaeth lefel uchaf, cefnogaeth rheolwyr, datblygu cysylltiadau ar sail ymddiriedaeth, lefel uchel o ymreolaeth staff a chyfranogiad staff yn y broses o wneud penderfyniadau.

Ariannu hyfforddiant

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i hwyluso datblygiad personol a phroffesiynol, ac mae cyllideb hyfforddiant corfforaethol gan yr Adran Adnoddau Dynol. Ar hyn o bryd, mae'n £82,000 y flwyddyn. Gwneir cynigion bob blwyddyn yn erbyn y gyllideb hon drwy gynlluniau hyfforddi adrannau. Rhoddir blaenoriaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol (35% o gyfanswm y gwariant), hyfforddiant iechyd a diogelwch (26%) a hyfforddiant iaith Gymraeg (17%).

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd 20% o'r gyllideb yn cael ei neilltuo ar gyfer Creu Hanes. Wrth i weithgareddau gael eu treialu a'u haddasu a sgiliau newydd gael eu dysgu, bydd ein staff yn rhannu arferion gorau gyda gweddill Amgueddfa Cymru.

4.3.2 Parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr

Bydd projectau cyd-guradu a chydweithio cyfranogol yn caniatáu i'r Amgueddfa wella wrth i bobl gyfrannu mwy. Gall 'mwy' olygu mwy o bobl neu gyfranogiad dyfnach.¹⁶ Bydd fforymau cyfranogol a chydweithio â sefydliadau allanol yn llywio ein ffordd o feddwl ac yn caniatáu i ddefnyddwyr fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn yr Amgueddfa.

4.3.3 Cynyddu nifer yr ymwelwyr

Ein nod yw cynyddu nifer yr ymwelwyr i 850,000 y flwyddyn dros oes y project. Cyflawnir hyn drwy:

- marchnata gwell ac wedi'i dargedu fwy
- cynyddu nifer y digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynhelir yn ystod cyfnodau llai prysur y gwanwyn a'r hydref
- darparu elfennau arddangos newidiol a digwyddiadau yn Gweithdy
- datblygu digwyddiadau ar raddfa fawr ymhellach megis y gwyliau cerddoriaeth a bwyd a'r digwyddiad ailberfformio
- creu 'traddodiad' o ymweld â Sain Ffagan ar gyfer digwyddiadau, yn yr un modd ag y mae digwyddiadau yn Skansen wedi dod yn rhan o galendr blyneddol y rhan fwyaf o bobl Stockholm.

¹⁶ Gweler Nina Simon, *The Participatory Museum*, www.participatorymuseum.org

- cynyddu ein dysgwyr ffurfiol, yn enwedig ysgolion cynradd o'r Gogledd, myfyrwyr uwchradd, AB ac AU
- darparu ar gyfer grwpiau mwy o faint, yn sgil y cyfleusterau newydd a gynigir gan y Ganolfan Ddysgu, Gweithdy a Llys Rhosyr. Bydd hyn yn galluogi'r Amgueddfa i ddarparu cyrsiau sy'n galluogi cynnydd i gyfranogwyr, ac ehangu'r mathau o ymgysylltu sydd gennym â chymunedau
- rhaglen arddangos dros dro i annog ymweliadau dychwel ac ymweliadau newydd
- datblygu'r wefan ymhellach ar gyfer hyrwyddo ymweliadau â Sain Ffagan. Bydd yr Amgueddfa'n rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu â'i hymwelwyr drwy e-gylchlythyrau, a defnyddir y wefan i gasglu manylion cyswllt. Bydd y wefan yn hyrwyddo'r Amgueddfa drwy declyn hyrwyddo sy'n sensitif i gyd-destun, ei blog a'i chyfryngau cymdeithasol.

Cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru

Bydd y Cynllun Gweithgareddau'n gweithio tuag at hyn drwy:

- Creu swyddi, lleoliadau hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli newydd
- Cynhyrchu incwm drwy ddigwyddiadau a rhaglenni cyrsiau ar raddfa fawr
- Denu mwy o ymwelwyr i Sain Ffagan, gan gyfrannu at fywiogrwydd economaidd ardal Caerdydd a brand Caerdydd fel canolfan economaidd a Dinas Ewropeaidd o bwys.

4.4 A oes galw? Trosolwg o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori

Rydym wedi cynnal proses ymgysylltu helaeth i lywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae hyn wedi cynnwys dros 130 o sefydliadau, cymdeithasau a grwpiau cymunedol yn uniongyrchol.

Mae rhai wedi cymryd rhan fel partneriaid yn y dyfodol – sefydliadau y gallem gydweithio â nhw er mwyn sicrhau mwy o fanteision i bobl Cymru. Ein hanhawster yn y gorffennol oedd cyfuno gweithio wyneb yn wyneb â grwpiau cymunedol unigol gyda dull mwy strategol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer sylw cenedlaethol ac ymdrin â meysydd o bryder cenedlaethol. Drwy weithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill, rydym yn gobeithio elwa ar eu strwythurau, eu rhwydweithiau a'u gwybodaeth am gymunedau i adeiladu rhywbeth sy'n fwy na chyfanswm ei gydrannau (er enghraifft, gweithio gyda sefydliadau partner drwy'r Fforwm Gwirfoddoli i ddarparu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion di-waith).

Rydym wedi ymgynghori hefyd â grwpiau o bobl sy'n cynrychioli'r cynulleidfaoedd a'r defnyddwyr newydd rydym am ymgysylltu â nhw, ac rydym wedi ymgysylltu â llawer ohonynt yn y broses gynllunio. Cefnogaeth frwd i'r Amgueddfa a'i hamcan oedd yr ymateb bron yn ddieithriad.

‘Rydyn ni wedi cyffroi'n lân am weithio gyda chi... Dywedwch wrthym ni beth sydd ei angen arnoch chi a byddwn ni'n ei wneud.’

[Cydgysylltydd Project MENCAP \(Cyfeiriad 11, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Mae hwn yn gyfle delfrydol i ni i gyd gyfrannu at hyn fel partneriaeth a gallai fod yn rhaglen dreigl i wneud i hyn ddigwydd.’

[Chris Williams, Canolfan Byd Gwaith \(Cyfeiriad 45, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Gofynnwch i'r plant gymryd rhan. Ein cymuned ni yw hi, ein hamgueddfa ni yw hi a dyma'r hyn y gallwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi.’

[Nichola Turner, A4E \(Cyfeiriad 45, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)



4.4.1 Cwmpas gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd

Mae staff o bob rhan o Amgueddfa Cymru wedi gwneud dros 230 o gysylltiadau erbyn hyn â sefydliadau ac unigolion amrywiol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i gefnogi'r project Creu Hanes.

Er bod rhai staff wedi arwain gyda grwpiau penodol, ein hethos fu annog amrywiaeth o staff o bob rhan o'r Amgueddfa i gymryd rhan weithredol yn y broses o drafod ein cynlluniau gydag eraill. Mewn llawer o achosion, mae staff wedi cysylltu â gwahanol unigolion neu dimau o fewn yr un sefydliad, er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid cywir yn cymryd rhan am y rheswm cywir ar agweddau wedi'u targedu ar y project. Mae'r dull hwn wedi golygu bod ffocws i'r gwaith, ac mae'n seiliedig ar anghenion ein cynulleidfaoedd a'n darpar gynulleidfaoedd.

Mae cofnod llawn o'n gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i'w weld yn ein Hadroddiadau a'n Cynllun Gweithredu Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd. Mae hyn yn dangos yr amrywiaeth o ffyrdd rydym wedi cofnodi ein gweithgarwch, a sut mae hyn wedi datblygu wrth baratoi'r cymhwysiad hwn. Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio templed Adborth ar ôl Ymgynghori Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Atodiad F yn yr adroddiad uchod) i adrodd ar weithgarwch ar gyfer cynulleidfaoedd targed allweddol. Mae hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu pwyntiau allweddol, ystyried ein hymateb a thynnu sylw at agweddau pwysig megis Deilliannau



Dysgu Cyffredinol a Chanlyniadau Cymdeithasol Cyffredinol.

4.4.2 Dull partneriaeth

O'r 230 o gysylltiadau a wnaed, rydym wedi ymgynghori â 130 o sefydliadau partner posibl ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae gan y sefydliadau hyn ddealltwriaeth ddofn o anghenion sectorau penodol eisoes a byddant yn gallu ein harwain wrth i ni weithio i ddatblygu a gweithredu mentrau gyda'n gilydd.

Mae cynlluniau partneriaeth cenedlaethol Amgueddfa Cymru – Cyfoeth Cymru Gyfan-Sharing Treasures, a Celf Cymru Gyfan-ArtShare Wales – yn ein galluogi i weithio gydag amrywiaeth o amgueddfeydd ac orielau lleol ledled Cymru hefyd, gan sicrhau bod y casgliadau cenedlaethol ar gael mor eang â phosibl. Yn ogystal â'r cynlluniau hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol allweddol, gan gynnwys Oriel y Parc Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Stori Caerdydd

4.4.3 Fforymau Cyfranogol

Fel rhan o'r broses ymgynghori, aethom ati i sefydlu pedwar grŵp gwahanol o bobl ifanc i ddyfeisio a datblygu'r rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc. Dewiswyd Fforwm Ieuenctid Caerffili i weithio gyda chynrychiolwyr o fforymau athrawon i ddilyn a llywio cynnydd y Tîm Dylunio yng Nghamau AB a CD. Bu grwpiau defnyddwyr newydd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a C2DE yn allweddol wrth dreialu amrywiaeth o weithgareddau posibl. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Genesis Cymru (Rhieni Sengl Di-waith) sy'n profi potensial y casgliadau wrth ddatblygu sgiliau rhianta, grwpiau teuluol o'r gymuned Somali'aidd yng Nghaerdydd yn samplu syniadau ar gyfer gweithdai creadigol a MENCAP Cymru yn gweithio ar adnoddau i wella'r dehongliad o'r safle ar gyfer pobl anabl (gweler yr Adroddiadau a'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd).

Gan adeiladu ar lwyddiant yr uchod, sefydlwyd naw fforwm cyfranogiad a fydd yn helpu i ddatblygu a pharhau deialog â ffocws. Crëwyd y fforymau hyn fel ein bod yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd â blaenoriaeth a sefydliadau partner allweddol, y mae rhai ohonynt yn sefydliadau ambarél sy'n gweithio'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol gyda'u

'Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn eich bod chi'n gwneud i'r ardal weithgareddau deimlo'n wahanol iawn i'r hyn sydd gennym ni yn ein canolfan gymunedol, neu mewn ysgol. Mae'n rhaid iddi deimlo'n arbennig, gyda rhai o'r pethau sydd gennych chi yn y storfa yno i bobl eu gweld.'

[Aelod o Fforwm Ieuenctid Caerffili \(Cyfeiriad 2, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

'Mae'n anhygoel bod yn rhan o'r broses hon. Rydych chi'n mynd â phobl ar daith gyda chi. Roeddech chi'n gallu gweld bod y bobl ifanc wedi cyffroi yn lân. Roeddwn i'n gyffrous hyd yn oed yn trafod gyda dylunwyr go iawn. Os caiff hyn ei adeiladu, bydd hi'n wych meddwl ein bod ni wedi trafod y cynlluniau.'

[Athro, aelod o'r Fforwm Dysgu Ffurfiol \(Cyfeiriad 29, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)



defnyddwyr. Mae aelodau o'r rhain wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithgareddau eisoes a byddant yn dod yn llysgenhadon a hyrwyddwyr hanfodol sy'n eirioli dros bartneriaethau cydweithredol, gydol datblygiad y project a thu hwnt.

Dyma'r fforymau:

- **Fforwm gwirfoddoli:** cynrychiolwyr sefydliadau partner sy'n gweithio gyda gwirfoddoli
- **Llysgenhadon Ifanc** (14-17 oed): aelodau o glybiau ieuentid yn yr ardal leol
- **Fforwm amlddiwylliannol:** cynrychiolwyr sefydliadau partner sy'n gweithio gyda chymunedau amlddiwylliannol a Chymraeg eu hiaith
- **Fforwm dysgu anffurfiol:** cynrychiolwyr sefydliadau partner sy'n gweithio gydag oedolion mewn dysgu anffurfiol
- **Fforwm dylunio defnyddwyr:** aelodau o'r fforwm gwreiddiol a sefydlwyd i ddilyn y broses ddylunio ar gyfer y project. Mae'r grŵp hwn yn awyddus i ddilyn y broses dylunio ac adeiladu yn ei chyfanrwydd hyd at ei chwblhau
- **Fforwm ysgolion cynradd ac arbennig:** grŵp o athrawon sy'n cynrychioli ysgolion cynradd ac arbennig yn y De-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin
- **Fforwm ysgolion uwchradd:** grŵp o athrawon ysgolion uwchradd yn y De
- **Fforwm treftadaeth anniriaethol:** fforwm peilot o ymarferwyr crefft, artistiaid, pobl sy'n fedrus mewn technegau adeiladu traddodiadol a chelfyddydau perfformio sy'n edrych ar sgiliau Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol
- **Fforwm cyfoedion academiaidd:** academyddion prifysgol sy'n ymwneud ag addysgu hanes, archaeoleg, y celfyddydau perfformio ac astudiaethau Cymreig sydd am weithio gyda'r Amgueddfa i ymgysylltu â'r cyhoedd.

4.4.4 Dulliau ymgysylltu

Crëwyd y dull ymgysylltu i gyd-fynd ag anghenion y grŵp, boed yn weithwyr proffesiynol academiaidd, gwirfoddolwyr sydd wedi ymddeol, athrawon ysgol, pobl ifanc, y rhai ag anawsterau symud, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol neu gyfuniadau o'r rhain. Er enghraifft:

- Gwahodd grwpiau i ymweld â Sain Ffagan i drafod syniadau ar y safle – mynediad, themâu dehongli, cyfeiriadedd, curadu cymunedol
- Ymweld â grwpiau yn eu cymunedau cartref – perthnasedd Sain Ffagan i'w cymunedau, materion trafnidiaeth, ymwybyddiaeth o Sain Ffagan
- Trefnu teithiau estynedig a thros nos i grwpiau o bobl ifanc i helpu i ddatblygu syniadau – cyfle i blant aros dros nos yn Llys Rhosyr.

4.4.5 Astudiaethau achos

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn tynnu sylw at feysydd gweithgarwch penodol gyda rhai o'n cynulleidfaoedd â blaenoriaeth a fforymau cyfranogol.

Ail-greu Angel Canoloesol

Fel rhan o'r gweithgareddau ymgynghori ar gyfer archaeoleg arbrofol, trefnwyd sesiwn rhannu sgiliau i arbrofi gyda thechnegau paentio canoloesol dilys, a'u treialu, er mwyn ail-greu paentiad wal o angel o'r unfed ganrif ar bymtheg yn Eglwys Teilo Sant. Roedd y sesiwn, a gynhaliwyd dros dridiau, yn cynnwys staff o'r Adran Archaeoleg a'r Uned Adeiladau Hanesyddol, prentisiaid a gwirfoddolwyr.



Gwirfoddolwyr oedd wrth wraidd y tîm, gan rannu'r profiad dysgu a chymryd rhan yn y gwaith o dreialu technegau traddodiadol megis gwneud stensiliau o femrwn, ail-greu'r gwahanol fathau o baentiadau o ddeunyddiau crai, eu profi, hyd at baentio'r angel ar wal yr eglwys. Torrodd y gweithgarwch hwn dir newydd i'r Uned Adeiladau Hanesyddol, o ran arbrofi gyda thechnegau paentio a chydweithio.

Yna, defnyddiwyd y sgiliau a ddysgwyd gan un gwirfoddolwr mewn gweithgarwch a ddyfeisiodd ar gyfer digwyddiad cymunedol gartref; un arall oedd artist a oedd yn gobeithio ymgorffori rhywfaint o'r hyn a ddysgodd yn ei gwaith. Mae'r gwaith cydweithredol yn yr Amgueddfa yn parhau, ond y cam nesaf fydd galluogi gwirfoddolwyr i ddod yn rhan barhaol o'r profiadau dysgu y gall archaeoleg arbrofol eu darparu.



Trafodaeth ar y Ddeddf Uno

Cynhaliwyd trafodaeth o'r enw: '1536 The Act of Union, England and Wales: What next?' yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 22 Gorffennaf 2011. Cymerodd gwleidyddion o bob un o'r pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru ran yn y ddadl, yn ogystal ag awdurdod blaenllaw ar y cyfnod, yr hanesydd Dr Nia Powell. Roedd y gynulleidfa'n cynnwys newyddiadurwyr, haneswyr, staff a rhanddeiliaid, ac roedd yn agored i'r cyhoedd. Yn ystod y drafodaeth, anogwyd y gynulleidfa i drydar gan ddefnyddio'r hashnod #deddfuno. Dangoswyd y negeseuon yn fyw ar sgrin ar y llwyfan, a oedd yn caniatáu i'r gynulleidfa gymryd rhan ond hefyd i bobl na allent fynychu'n bersonol ddilyn y drafodaeth. Felly, cyflwynwyd amryw o sylwadau a chwestiynau drwy Twitter, gan ganiatáu i fwy o bobl gymryd rhan yn y drafodaeth yn bersonol ac yn rhithwir. Mae hyn wedi llywio ein dull o ddatblygu cynnwys a gweithgareddau ar gyfer oriel Creu Cymru.



‘Tro nesa, allwn ni fynd i'r castell?’

Grŵp Menywod Somaliadd

Cynhaliwyd cyfarfod archwiliadol gyda'r Gymdeithas Integreiddio Somaliadd i drafod sut y gallai Sain Ffagan feithrin cysylltiadau hirdymor â chymuned Somaliadd Cymru, i lywio gwaith yr Amgueddfa ac i gefnogi ei gweithgareddau a'i rhaglenni. Cynghorwyd y byddai'n well i unrhyw weithgarwch a gynigir i'r grŵp fod yn ymarferol a chynnwys gwneud rhywbeth, gan nad yw rhai o'r menywod yn gallu siarad Saesneg. Dyfeisiwyd dulliau ymgysylltu ynghylch sut y gall gwahanol grwpiau wneud cysylltiadau rhwng y gwrthrychau sydd gan yr Amgueddfa yn y casgliad a'u gwrthrychau personol eu hunain, neu wrthrychau sy'n gyffredin yn eu gwlad frodorol. Cynhaliwyd diwrnod gweithgareddau prawf gyda'r Grŵp Menywod gan ddefnyddio eitemau domestig.

Yn dilyn amharodrwydd cychwynnol i ymgysylltu â staff yr Amgueddfa, roedd y cyfranogwyr yn awyddus i gyfrannu at y dasg goginio a rhannu straeon am eu profiadau gyda gwrthrychau tebyg yn eu diwylliant nhw. Roedd awydd gwirioneddol i nodi tebygrwydd rhwng diwylliannau ac ymrwymiad i gymryd rhan mewn sesiynau teuluol yn y dyfodol.



‘Mae gennym ni Looha sy'n debyg i hynny...’
‘Yn Somalia, mae'r dynion yn canu caneuon ac yn adrodd cerddi i'r menywod maen nhw'n eu hoffi... Rydyn ni'n bwyta gyda llwyau fel yna.’

[Cyfranogwyr cymunedol sy'n gweithio gyda'r Gymdeithas Integreiddio Somaliadd \(Cyfeiriad 27, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

‘Dwi'n bendant o'r farn y dylai Sain Ffagan gynnig cyfle i blant gysgu dros nos. Mae wedi rhoi'r cyfle i'r staff a'r plant drafod y pethe rydyn ni wedi'u dysgu gyda'n gilydd. Mae'n brofiad bythgofiadwy.’

[Athro ysgol, Ysgol Llangaffo \(Cyfeiriad 34, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

Treialu ffyrdd newydd o weithio

Gwnaethom dreialu ffyrdd newydd o weithio gyda chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd hefyd. Buom yn gweithio dros dri mis gyda grŵp o fechgyn ifanc yn eu harddegau a'u mamau, fel rhan o Brosiect Ieuentid a Rhieni Eich Cadw Chi yn yr Ysgol ysgol fro leol. Yn ystod y cyfnod hwn, archwiliodd y bobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid ystyr hanes ac archaeoleg o safbwynt personol. Buont yn cymryd rhan mewn sesiynau trafod gwrthrychau ac yn helpu i brofi rhai o'r ffyrdd y gellid bod wedi cludo'r cerrig gleision 80 cilogram o Sir Benfro i Gôr y Cewri. Cafodd eu profiadau, eu meddyliau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol eu cipio mewn poster a gyd-gynhyrchwyd gan y grŵp ac artist.

‘I fod yn onest, gobeithio ei bod hi'n iawn i mi ddweud hyn, ond bues i bron â pheidio dod heddiw ... rwy'n falch mod i wedi dod. Roeddwn i wrth fy modd yn treulio diwrnod gyda'r mab yn gwneud pethau ... dydyn ni ddim yn gwneud hyn yn aml.’

[Aelod o'r rhaglen deuluol Eich Cadw Chi yn yr Ysgol \(Cyfeiriad 26, Adroddiadau a Chynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd, Atodiad 6\)](#)

Awgrymodd Fforwm Ysgolion Cynradd y Gogledd-orllewin yn frwdfrydig y dylid rhoi cyfle i blant i **aros dros nos** ar ôl ailadeiladu un o lysoedd Tywysogion Gwynedd fel ffordd o ddenu ysgolion o'r tu allan i'r dalgylch 50 milltir. Er mwyn profi hyfywedd gweithredol y syniad, treuliodd grŵp o 15 o blant ysgol a'u hathrawon o ysgol gynradd yn Ynys Môn noson yn yr Amgueddfa. Roedd y profiad yn gadarnhaol ac yn addysgiadol i'r ysgol a'r staff dan sylw. O ganlyniad, mae aros dros nos yn Llys Rhosyr wedi dod yn rhan o Gynllun Gweithredu a Chynllun Cynaliadwyedd Busnes y project.

Am ragor o astudiaethau achos, gweler yr Adroddiadau Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd a'r Cynllun Gweithredu.

5 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Mae gwerthuso yn rhan annatod o ffordd Amgueddfa Cymru o weithio. Drwy fyfyrion ar y gwaith rydym yn ei wneud, rydym yn dathlu ein cyflawniadau, yn dysgu o'n camgymeriadau ac yn gwella ein perfformiad drwy ddysgu a gwneud newidiadau. Heb y cam olaf, nid oes gwerth i werthuso. Bydd y rhan fwyaf o'r gwerthuso'n cael ei gynnal gennym ni yn fewnol (hunanwerthuso), gan ein cynulleidfaoedd targed a sefydliadau partner drwy fforymau cyfranogol, ond bydd rhywfaint yn cael ei gynnal gan asiantaethau allanol naill ai ar ein rhan ni neu at eu dibenion safonau ansawdd eu hunain. Mae hunanwerthuso a gynhelir gan staff yn allweddol i newid diwylliant yn yr Amgueddfa ac empathi dyfnach ag anghenion defnyddwyr.

Byddwn yn defnyddio ac yn addasu pecyn cymorth Gwerthuso Amgueddfa Cymru i sicrhau ein bod yn gwerthuso ein gwaith yn ysturlon, ar lefel strategol. Fe'i cynlluniwyd i annog diwylliant o adolygiad parhaus a bod yn gyfrwng ar gyfer dathlu a gwella. Mae dysgu parhaus yn ffactor allweddol yn y project Creu Hanes, gan nad ydym yn disgwyl cael popeth yn iawn o'r cychwyn cyntaf. Rhaid i ni ddysgu o brofiadau sefydliadau partner, cynulleidfaoedd targed a'n staff ein hunain yn ystod y project i gyrraedd ein nodau terfynol a darparu etifeddiaeth barhaol.

Yn unol â hynny, bydd gan bob gweithgarwch ei fesurau llwyddiant ei hun, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu. Caiff y rhain eu crynhoi i ddarparu mesurau llwyddiant cyffredinol yn erbyn nodau ac amcanion y project cyfan. Mae'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu'n ddau gategori; dangosyddion ansoddol a dangosyddion meintiol.

Nid ydym am gyfyngu ein methodoleg werthuso i'r strategaethau asesu traddodiadol o'r brig i lawr lle mae uwch reolwyr neu werthuswyr allanol yn cynllunio ac yn rheoli gwerthuso. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â'n fforymau cyfranogol a'n staff project mewn model gwerthuso o'r gwaelod i fyny, sy'n mynd i'r afael â'u buddiannau yn hytrach na mesurau llwyddiant a sbardunir gan y sefydliad.

Mae parch at farn a mewnbwn cyfranogwyr yn hollbwysig i'r dull cyfranogol. Rydym yn bwriadu integreiddio cyfranogwyr wrth werthuso'r project, yn ogystal â'u cynnwys wrth ei gynllunio a'i gyflwyno. Nid gwerthuso eu profiadau fel cyfranogwyr yw unig nod hyn; byddwn yn cydweithio â nhw i gynllunio, gweithredu a lledaenu'r gwerthusiad o'r project.

Y mesurau llwyddiant yn y pen draw fydd pa mor bell rydym wedi teithio erbyn diwedd y project o ble rydym ni nawr o ran:

- effaith gymdeithasol ac ymgysylltiad ymwelwyr
- i ba raddau mae gweithio cyfranogol wedi dod yn rhan annatod o ddiwylliant yr amgueddfa ac yn cael ei adlewyrchu yn yr adnoddau a neilltuir iddo.

Manylir ar ddangosyddion ansoddol a meintiol ar gyfer gwerthuso llwyddiant pob gweithgarwch yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o sut mae'r rhain yn ymwneud â nodau cyffredinol Creu Hanes.

5.1 Dangosyddion ansoddol

Nodau Creu Hanes	Amcanion Creu Hanes	Dangosyddion ansoddol	Sut beth yw cyflawniad		Mesurau
			Da	Diffygion	
ADNODD YSBRYDOLEDIG	Amgylchedd dysgu unigryw	Sut rydym yn sicrhau bod y lefel gywir o ymgysylltu yn digwydd gydag ymwelwyr?	Cynulleidfaoedd amrywiol yn mwynhau'r un projectau a digwyddiadau neu rai tebyg (wedi'u targedu at ystod eang), yn gyfartal Deilliannau dysgu cyffredinol wedi'u cyflawni Darparu ar gyfer arddulliau dysgu amrywiol	Deilliannau dysgu cyffredinol heb eu cyflawni Darparu ar gyfer arddulliau dysgu penodol yn unig	Gwaith Astudiaethau Achos Deilliannau Dysgu Cyffredinol (GLOs) i gynnwys rhywfaint o ddysgu a phob project arddangos
	Orielau newydd	Pa mor llwyddiannus yw'r orielau newydd o ran ymgysylltu ac ysbrydoli?	Treulio llawer o amser mewn orielau Rhyngweithio â gweithgareddau'r oriel Cyfraniadau a chyfranogiad defnyddwyr Defnyddwyr yn ymgysylltu â'i gilydd	Treulio ychydig iawn o amser mewn orielau Dim ymweliadau dychwel Dim ymgysylltiad â gweithgareddau Dim cyfraniadau neu gyfraniadau o ansawdd isel	Arolygon arsylwi ymwelwyr Natur ac ansawdd cyfraniadau defnyddwyr Gwaith Astudiaeth Achos GLO
	Archaeoleg arbrofol	A yw pobl yn ymgysylltu ag archaeoleg arbrofol?	Diddordeb parhaus gan gyfranogwyr Amrywiaeth eang o gyfranogwyr	Gostyngiad mewn diddordeb a chyfranogiad yn ystod project archaeolegol Apelio at gynulleidfaoedd traddodiadol yn unig	Arsylwi Cyfweliadau Ansawdd y gwaith (gan gynnwys achrediad a dyfarniadau lle bo'n berthnasol) Astudiaethau achos GLO a Deilliannau Cymdeithasol Cyffredinol (GSOs)
	Mynediad uniongyrchol at gasgliadau ac archifau	Pa mor hawdd yw hi i ddefnyddwyr gael mynediad at gasgliadau?	Amrywiaeth eang o ddefnyddwyr yn cael mynediad at y casgliadau at amrywiaeth o ddibenion	Amrywiaeth gul o ddefnyddwyr yn cael mynediad cyfyngedig at y casgliadau cenedlaethol	Adroddiad naratif yn tynnu sylw at ystod o ymweliadau â'r Ganolfan Mynediad at Gasgliadau a gefnogir gan ddata meintiol Adroddiad naratif ar yr eitemau yn y casgliad sydd ar gael drwy gyfryngau newydd

Nodau Creu Hanes	Amcanion Creu Hanes	Dangosyddion ansoddol	Sut beth yw cyflawniad		Mesurau
AMGUEDDFA GYFRANOGOL	Dyfnhau ymgysylltiad â threftadaeth ddiwylliannol		DaDiffygion		
		Pa mor fodlon yw ymwelwyr dysgu ffurfiol?	Adborth cadarnhaol am raglenni addysgol sy'n cael eu rhedeg yn dda a chyflawniadau	Materion negyddol yn cael eu codi a sylwadau beirniadol	Arolygon ac adroddiadau holiadur Gwerthusiad addasol gyda fforwm cyfranogiad
